

## **SANTESAU CYMRU**

© Jane Cartwright

**Credydau: 20**

**Tiwtor: Yr Athro Jane Cartwright**

### **Disgrifiad o'r cwrs:**

Mae'r modiwl hwn yn cyflwyno nifer fawr o santesau Cymru i fyfyrwyr gan gynnwys Dwynwen (nawddsantes cariadon); Melangell (nawddsantes ysgyfarnogod), Non (mam Dewi Sant) a Santes Gwenfrewi (yr honnir bellach fod ei ffynnon sanctaidd yn un o saith ryfeddod Cymru). Er bod y rhan fwyaf o bobl yn gyfarwydd â chwlt Dewi Sant (nawddsant Cymru), mae'r chwedlau a'r traddodiadau sy'n gysylltiedig â santesau Cymru'n llai cyfarwydd ar y cyfan. Nod y cwrs hwn yw archwilio'r ffynonellau llenyddol a hanesyddol sydd yn gysylltiedig â'r menywod sanctaidd hyn a thaflu goleuni newydd ar eu cyltiau canoloesol. Yn ogystal â'r santesau a nodwyd eisoes, byddwn hefyd yn ystyried y dystiolaeth ddarniog sydd ar gael ar gyfer santesau Cymreig lleol eraill (er enghraifft Gwenog, Eluned a Maches) ac yn edrych ar y dystiolaeth Gymraeg ar gyfer rhai o'r santesau estron a ddaeth yn boblogaidd yng Nghymru (er enghraifft Catrin o Alecsandria). Anogir myfyrwyr i gwestiynu dilysrwydd y cysyniad o Eglwys 'Geltaidd' unedig ac i ystyried pwysigrwydd crefyddol, hanesyddol a gwleidyddol y Bucheddau (neu fywgraffiadau) canoloesol sy'n disgrifio gwyrthiau a champau'r santesau. Byddwn hefyd yn ystyried pam mae llai o ffynonellau bucheddol ar gael ar gyfer y santesau ac yn dadansoddi'r patrwm bywgraffiadol sydd i'w ganfod yn y ffynonellau llenyddol. Mae'r cwrs wedi'i ddarlunio drwyddo gan ffotograffau a dynnwyd gan Jane Cartwright. Y nod yw pwysleisio pwysigrwydd y dystiolaeth weledol yn ymwneud â chwlt y seintiau a hefyd annog myfyrwyr i ymweld â rhai o'r eglwysi, safleoedd a ffynhonnau sanctaidd sy'n gysylltiedig â'n seintiau.

## Gwryfon Marw: Sancteiddrwydd Benywaidd yng Nghymru'r Oesoedd Canol

### Cyflwyniad

Mae llenyddiaeth Gymraeg ganoloesol yn gyfoethog o ran ei llên fucheddol. Goroedd nifer o *vitae* a bucheddau sy'n cofnodi'r traddodiadau canoloesol sy'n gysylltiedig â nifer o'r seintiau Cymreig brodorol, er enghraifft Dewi, Beuno, Cadog, Illtud a Teilo.<sup>1</sup> Er i rai o'r seintiau hyn (Dewi Sant yn arbennig) ddenu sylw haneswyr y seintiau, anwybyddwyd y santesau Cymreig i raddau helaeth tan yn ddiweddar, o bosib am mai ychydig iawn o'u Bucheddau sydd ar gael, ond hefyd oherwydd bod agweddau hynafaid Eglwys Geltaidd a lywiwyd gan ddynion wedi golygu iddynt gael eu hanwybyddu o bryd i'w gilydd. Mae gan Baring-Gould a Fisher yn eu hastudiaeth hynod gynhwysfawr *The Lives of the British Saints* nifer fawr o gofnodion yn ymwneud â santesau unigol ac mae gan Henken benodau gwerthfawr ar bum santes yn ei llyfr *Traditions of the Welsh Saints*.<sup>2</sup> Mae astudiaethau defnyddiol eraill yn ffocysu ar y chwedlau sy'n gysylltiedig â Santes Gwenfrewi a'i ffynnon iachusol yn Nhreffynnon, Sir Fflint, ac â Santes Melangell a'i heglwys a'i chreirfa ym Mhennant Melangell, Powys.<sup>3</sup> Mae'r ffynonellau a gyfer y santesau'n annhebyg ac amrywiol ac, o ganlyniad, rhaid mabwysiadu dull aml-ddisgyblaethol er mwyn gwerthuso deunydd y ffynonellau'n effeithiol. Mae ffynonellau cynradd perthnasol yn cynnwys Bucheddau Cymraeg a Lladin, achau, calendrau, gweddiâu, barddoniaeth y Cywyddwyr, testunau cyfraith, enwau lleoedd, ffynhonnau sanctaidd, creirfeydd, seliau eglwysig a gwydr lliw.<sup>4</sup> Mae'r modwl hwn yn ceisio cyfuno llawer o'r ffynonellau hyn ac yn gobeithio taflu goleuni newydd ar y traddodiadau canoloesol sy'n gysylltiedig â merched sanctaidd Cymru. Archwilir patrwm bywgraffyddol y *mulieres sanctae* hyn, gyn belled ag y gellir ei ganfod o'r ffynonellau cyfyngedig sydd ar gael, ac ystyrir materion yn ymwneud â sancteiddrwydd benywaidd mewn perthynas â bucheddau Cymraeg y saint.

Darluniwyd 'Oes y Saint' yn aml fel cyfnod o weithgaredd crefyddol dwys pan groesai'r cenhadon 'Celtaidd' yn ôl a blaen ar hyd llwybrau morol y gorllewin yn sefydlu cymunedau crefyddol cynnar yng Nghymru, yr Alban, Cernyw, Iwerddon, Llydaw ac Ynys Manaw.<sup>5</sup> Yng Nghymru gelwid yr ardaloedd caeedig hyn yn llannau,

ac mae llawer o enwau lleoedd yn adlewyrchu enwau santesau yn ogystal â'u cymheiriaid gwrywaidd: er enghraifft Llan-non, Llanddwyn, Llan-gain, Llanllŷr, Llandegla a Llanerfyl. Tra dadleuai rhai ysgolheigion, megis E. G. Bowen ar un adeg fod enwau lleoedd a chysegru eglwysi o bosib yn adlewyrchu gweithredoedd cenhadol sant, mae'r mwyafrif bellach yn awgrymu eu bod yn dynodi lledaeniad cwl't sant. Er i Gristnogaeth ddod i dde-ddwyrain Cymru yn ystod cyfnod y Rhufeiniaid, ystyrid y bumed i'r wythfed ganrif yn draddodiadol fel y cyfnod ffurfiannol o ran sefydlu 'Eglwys Geltaidd' gyda'i strwythur penodol ei hun o gymunedau mynachaid yn dilyn trefn lem, hunanymwadol.<sup>6</sup> Honnodd J. W. Willis Bund, dros ganrif yn ôl, mai'n anaml y byddai menywod yn dod yn santesau yng Nghymru ac Iwerddon 'for a woman would not be the head of a monastery, the chief of a tribe of a Saint, and so could never become a Saint or entitled to be so callgol...a woman could never fill the office which certainly among the Welsh entitled a person to become a saint'.<sup>7</sup> Roedd seintiolaeth, yn ei farn ef, yn gaeth i ryw penodol ac yn anghydnaws â'r rolau traddodiadol a oedd gan fenywod. Roedd G. H. Doble, awdur nifer o erthyglau ar seintiau Cernyw a Chymru, yn ei chael hi'n anodd hefyd derbyn y gallai menywod fod wedi teithio pellteroedd mawr i sefydlu sefydliadau crefyddol. Mae eglwysi wedi'u cysegru i Santes Cain yn Ne Cymru, Sir Fôn, Gwlad yr Haf, Swydd Henffordd a Chernyw, ac roedd Doble, tra'n gwbl barod i dderbyn y gallai Cain fod wedi ymweld â'r lleoliadau petai'r sant wedi bod yn ddyn, ryw faint yn amharod i gydnabod y gallai hyn fod yn wir petai Cain yn ferch:

It seems difficult to believe that a woman could, in those wild ages, travel so far, and found so many settlements, and St. Keyne may quite well have been a man, in spite of the later universally accepted tradition of *Cain Wry* [Cain the Virgin]<sup>8</sup>

Mae Doble hefyd yn awgrymu mai sant gwrywaidd yn wreiddiol oedd Santes Non, mam Dewi Sant, cyfaill i Dewi Sant o bosib, ac iddi esblygu'n ddiweddarach yn santes a chael ei hadnabod yn fam iddo.<sup>9</sup> Eto yn *Vita Davidis*, Buchedd Dewi yn Lladin a gofnodwyd gan Rhigyfarch ar ddiwedd yr unfed ganrif ar ddeg (h.y. yr hanes estynedig cynharaf sy'n cofnodi traddodiadau canoloesol am Dewi Sant), Non yn ddiamau yw mam Dewi Sant ac mae'n chwarae rôl bwysig ym mhatrwm bywgraffyddol y sant, pwynt a drafodir yn fanylach cyn diwedd y cwrs hwn.<sup>10</sup> Nid oes awgrym yn unman yn y traddodiad Cymraeg canoloesol mai seintiau gwrywaidd

oedd Non neu Cain. Mae awgrymiadau Doble'n dynodi ysgol o feddwl a dybiai ei bod yn llawer mwy tebygol i'r seintiau gwrywaidd fod yn ffigurau hanesyddol na'r santesau: afraid dweud nad oes modd derbyn gwrywdod yn unig yn dystiolaeth o hanesyddoldeb.

Ceir rhagdybiaethau tebyg sy'n dangos rhagfarn yn erbyn merched yn *The Oxford Dictionary of Saints*. Mae David Farmer yn tybio am Fuchedd Beuno 'may contain genuine elements', ond mae'n diystyru Buchedd Lladin Gwenfrewi, nith Beuno o'r ddeuddegfed ganrif fel 'a tissue of improbabilities'.<sup>11</sup> Ni roddir unrhyw eglurhad. Mae'r ddwy chwedl yn trafod yr un digwyddiad ac mae'n aneglur pam mae un hanesyn canoloesol, yn adrodd sut cododd sant Cymreig o'r Oesoedd Tywyll saith o bobl o'r meirw (h.y. *Hystoria o Uched Beuno*), yn fwy tebygol o gofnodi digwyddiadau hanesyddol na hanesyn canoloesol arall sy'n adrodd sut cododd yr un sant Gwenfrewi o'r meirw (*Vitae sanctae Wenefrede/Buched Gwenfrewi*). Nid y nod yma yw honni bod pob un o'r santesau'n gymeriadau hanesyddol nac asesu cywirdeb hanesyddol y Bucheddau, dim ond herio'r dybiaeth gyson fod *vitae* bron i bob un o'r seintiau gwrywaidd yn cynnwys elfen greiddiol o 'wirionedd' hanesyddol. Nid yw chwaith yn briodol i anwybyddu'r deunydd chwedlonol sy'n gysylltiedig â'r santesau a'i alw'n 'worthless'.<sup>12</sup> Mae'r mwyafrif helaeth o'r ffynonellau perthnasol yn perthyn i'r cyfnod canoloesol ac felly fe'u hystyrir yn gofnod cywir, er yn anghyflawn, o gredoau a thraddodiadau canoloesol yn ymwneud â'r seintiau Cymreig. Fel y nododd J. Wyn Evans yn gryno:

The Lives of the saints appear then to tell us more of the cult of a saint at a particular place in the medieval period rather than about the saint himself or herself. They are based on criteria which were valid for the cyfarwydd or the ecclesiastic in writing of their own past as they perceived it, rather than those which the twentieth century normally uses in writing history.<sup>13</sup>

### Merched Brycheiniog (e.e. Eluned)

Yn ôl *Trioedd Ynys Prydein*, casgliad o drïoedd Cymraeg Canol y tybir iddo gael ei lunio yn y ddeuddegfed ganrif, roedd Brychan Brycheiniog yn un o 'dri Santeidd Linys Ynys Prydein'.<sup>14</sup> Mae ei achau yn *De situ Brecheniauc* yn cofnodi iddo briodi deirgwaith a bod iddo un mab ar ddeg a phum merch ar hugain, a phob un ohonynt yn seintiau.<sup>15</sup> Diddorol yw nodi bod E. G. Bowen yn mapio'r eglwysi a gysegrwyd i feibion Brychan yn *Settlements of the Celtic Saints in Wales*, ond nad yw'n cynnig astudiaeth debyg o'r eglwysi a gysegrwyd i ferched Brychan, er gwaetha'r ffaith eu bod yn llawer mwy niferus.<sup>16</sup> Mae achau Brychan yn amrywio o un llawysgrif i'r llall. Er enghraifft, mae *Cognacio Brychan*, sydd yn ôl pob tebyg yn gopi o'r unfed ganrif ar bymtheg o lawysgrif o'r drydedd ganrif ar ddeg, yn rhestru pedair merch ar hugain gan gynnwys Santes Eluned (Eliwedd neu Elvetha) a ferthyrwyd, fe honnir, am ei chariad at ddiweirdeb.<sup>17</sup> Mae Gerallt Gymro hefyd yn tadogi pedair merch ar hugain ar Frychan ac yn rhoi adroddiad manylach o ferthyru Eluned yn yr *Itinerarium Cambriae* c.1188:

Mae'r hanesion Cymreig yn tystio bod iddo bedair merch ar hugain, ac iddynt oll ymroddi o'u mebyd i wasanaethu Duw, a therfynu eu bywyd yn llawen yn y perwyl sancteiddrwydd yr ymgymerasant ag ef. Ceir, hefyd, hyd heddiw eglwysi lawer ar hyd a lled Cymru wedi eu nodi â'u henwau hwy: un ohonynt yn nhalaith Brycheiniog, nid nepell o brif castell Aberhonddu, yn sefyll ar ben bryn, a gelwir hi Eglwys Santes Eluned oblegid buasai'r enw hwn ar wry sanctaidd, a gafodd fuddugoliaeth mewn merthyrdod llawen, wrth iddi wrthod yn ddirmygus briodas gyda brenin daearol yno, gan briodi'r Brenin Tragwyddol. . *Each year on the first day of August her feast-day is celebrated with great solemnity in this same place.*<sup>18</sup>

Oni bai am grynodedd Gerallt o Fuchedd Eluned, mae'n debyg y byddai'r traddodiadau penodol sy'n gysylltiedig â'r santes hon wedi'u colli, gan nad yw'r *vita* na'r fuchedd ar gael ac ni chaiff Eluned ei chrybwyll mewn barddoniaeth Gymraeg. Mae'n syndod nad yw ei diwrnod gŵyl wedi'i nodi o dan Awst 1af mewn unrhyw un o'r calendrau Cymreig.<sup>19</sup> Fodd bynnag, mae cyfeiriad at Eluned yng ngwaith William Worcestre (c.1415-1485). Mae'n cyfeirio at y ffaith fod gweddillion y santes yn eglwys y priordy ym Mryn Buga, cartref i gymuned o leianod Benedictaidd a sefydlwyd rywbyrd cyn 1135 gan Richard de Clare. Mae Worcestre hefyd yn adrodd hanes merthyru Eluned ar fryn gerllaw Aberhonddu, gan ychwanegu i ffynnon o ddŵr

darddu pan dorrwyd ei phen ac y bydd pwy bynnag sy'n yfed o'r dŵr neu'n adrodd Gweddi'r Arglwydd yn dod o hyd i flewyn o wallt Eluned ar garreg ger y man lle y'i merthyrwyd.<sup>20</sup>

### **Santes Gwenfrewi**

Mae mythos Eluned yn atgoffa rhywun braidd o'r traddodiadau sy'n gysylltiedig ag un o'r santesau Cymreig enwocaf – Gwenfrewi – merthyr wryfol y torrwyd ei phen, yn ôl amryw fersiynau ei chwedl ganoloesol, yn Sychnant (a adwaenid o hynny ymlaen yn Treffynnon) yn Sir Fflint, oherwydd iddi wrthod cael cyfathrach rywiol â thywysog lleol o'r enw Caradog. Fel y soniwyd ynghynt, fe'i hatgyfodir gan Beuno Sant sy'n gosod pen y wryf yn ôl ar ei hysgwyddau, ac mae ffynnon sanctaidd, â phwerau iachusol, yn tarddu o'r pwll o waed y santes a gollwyd ar y llawr. Mae Tudur Aled, mewn cywydd yn gynnar yn yr unfed ganrif ar bymtheg, yn tynnu sylw at y cerrig anarferol wedi'u staenio â gwaed ar waelod y ffynnon.<sup>21</sup> Mae'r *vitae* canoloesol hefyd yn cyfeirio at fwswm persawrus, a elwid, yn ôl Baring-Gould a Fisher, yn Wallt Santes Gwenfrewi. Mae llawer o dystiolaeth o chwedl Gwenfrewi mewn ffynonellau canoloesol a hi yw un o'r ychydig santesau benywaidd brodorol y mae eu Bucheddau rhyddiaith swyddogol wedi goroesi. Mae dwy Fuchedd Ladin o'r ddeuddegfed ganrif a buchedd Gymraeg o'r bymthegfed ganrif ar gael a cheir crynodeb o ferthyru a thorri pen Gwenfrewi hefyd ym Muchedd Gymraeg Beuno, *Hystoria o Uched Beuno* (c.1346). Mae'r fuchedd Gymraeg yn ymdebygu'n fawr i'r *vita* Lladin sydd yn Llyfrgell Bodleian, Rhydychen, MS Laud. misc. 114, sydd wedi'i dadogi ar y Prior Robert o'r Amwythig.<sup>23</sup> Cyfieithwyd chwedl Gwenfrewi i Saesneg Canol a chafodd ei chynnwys mewn nifer o gasgliadau hynod boblogaidd o fucheddau fel rhai fersiynau o'r *South English Legendary* (yr oedd iddo gylchrediad eang rhwng c. 1270-85 a'r bymthegfed ganrif), y *Gilte Legende* (1438) ac argraffiad William Caxton o'r *Golden Legend* (1483).<sup>24</sup> Ceir barddoniaeth Gymraeg ganoloesol yn sôn am chwedl Gwenfrewi a chofnodi iachau gwyrthiol wrth ei ffynnon sanctaidd yng ngwaith Ieuan Brydydd Hir (*fl.* 1450-85), Tudur Aled (c.1465-c.1525), Siôn ap Hywel ap Llywelyn Fychan (*fl.* c.1490-1532), yn ogystal â dau gywydd canoloesol anhysbys.<sup>25</sup> Yn 1138 symudwyd ei chreiriau i Briordy'r Amwythig o Wytherin lle, yn ôl ei Bucheddau canoloesol, y bu fyw am nifer o flynyddoedd yn abades yn gofalu am gymuned o leianod. Ymddengys fod Gwytherin yn denu pererinion hyd yn oed ar

ôl i'w chreiriau gael eu symud gan i Edward Lhuyd, wrth ymweld â Gwytherin c.1690, wneud braslun o'i chreirfa wag, y daethpwyd o hyd i ddarn ohoni gan Tristan Gray Hulse ym 1991 ac y credir ei bod yn dyddio o'r wythfed neu'r nawfed ganrif. Mae'n debyg i bererinion a oedd yn ymweld â Gwytherin dorri darnau bach o'r blwch pren nes iddo fynd yn deilchion.<sup>26</sup> Mae'r ffynnon fyrlymus yn Nhreffynnon, yr honnir bellach ei bod yn un o saith rhyfeddod Cymru, yn denu pererinion hyd at heddiw ac mae eglwys y plwyf yn honni ei bod yn gwarchod un o greiriau Gwenfrewi – darn bach o ewin ei bys.<sup>27</sup>

O 1240 hyd at Ddiddymiad y Mynachlogydd roedd y ffynnon sanctaidd yn ffynhonnell incwm sylweddol i fynachod Sistersaidd Dinas Basing a oedd yn ei meddiant a, gydol yr Oesoedd Canol, denodd ymwelwyr enwog fel Harri V, Edward IV a Risiart III. Roedd Gwenfrewi'n sicr yn ddigon pwysig yn wleidyddol i warantu cynhyrchu *vitae* canoloesol a buchedd Gymraeg. Cadarnheir ei safle uchel o fewn esgobaeth Llanelwy gan sêl eglwysig o'r bymthegfed ganrif, ail sêl Cabidwl Llanelwy, sy'n ymddangos fel petai'n darlunio Gwenfrewi, o dan orchudd pen fel priodasferch i Grist, yn dal ei bugeilffon fel abades a chreirfa hefyd. Ar y chwith iddi, saif sant arall, Sant Elwy mae'n debyg, ac mae trydydd ffigwr yn penlinio o dan ganopi. Darlunnir Gwenfrewi hefyd ar sêl o'r bymthegfed ganrif o Eglwys y Groes Sanctaidd ym Mhriordy San Pedr a Phaul, Amwythig. Mae'r sêl hon yn ffocysu ar dorri pen Gwenfrewi ac yn darlunio Caradog yn chwifio ei gleddyf yn gas uwchben pen y forwyn. Mae arni lythrennau cyntaf enw Thomas Mynde, Prior Amwythig 1459-99.<sup>28</sup>

Mae ysgolheigion yn aml wedi nodi pwysigrwydd gwleidyddol Bucheddau'r saint a'r ffordd y defnyddid yr hanesion hyn i roi awdurdod i'r esgobaethau canoloesol, honni hawliau a breintiau, diffinio ffiniau eglwysig a sefydlu hawliau cysegrau, yn ogystal â hyrwyddo cwlt nawddsant arbennig a sefydlu man pererindod gyda'r nod o elwa'n ariannol ac ysbrydol.<sup>29</sup> Roedd esgobaethau Tyddewi a Llandaf nid yn unig yn ymgiprys â'i gilydd am uchafiaeth archesgobol, ond roeddynt hefyd yn ceisio ymladd yn erbyn dylanwad Normanaidd. Tybid yn gyffredinol i nifer o eglwysi yng Nghymru ar ôl y goncwest gael eu hailgysegru i'r Forwyn Fair neu i seintiau cyffredinol boblogaidd (yn enwedig mewn ardaloedd lle roedd dylanwad Normanaidd cryf) a i rai o'r cysegrïadau gwreiddiol i seintiau Cymreig lleol gael eu colli neu'u newid.<sup>30</sup> Fodd bynnag, mae angen mwy o waith manwl ar frys ar gysegrïadau Cymreig os ydym yn mynd i brofi'r damcaniaethau hyn a dadansoddi i

ba raddau roedd hyn mewn gwirionedd o ganlyniad i ddylanwad Normanaidd.<sup>31</sup> Yn sicr erbyn y bedwaredd ganrif ar ddeg roedd seintiau poblogaidd rhyngwladol, fel y Forwyn Fair, Catrin o Alecsandria a Mair Fadlen mor boblogaidd yng Nghymru ag yr oeddent yng ngweddill Ewrot. Serch hynny roedd testunau bucheddol yn cysylltu seintiau brodorol yn gryf â sefydliad arbennig, ac yn gyffredinol, mae'n debyg mai yn lleol y cyflwynid sancteiddrwydd. Cyfyngid y mwyafrif llethol o gyltiau'r seintiau lleol (ac yn enwedig y santesau) i ardal arbennig, ac yn aml, dim ond un neu ddwy o eglwysi fyddai wedi'u cysegru. Ac eithrio Gwenfrewi, ymddengys mai ychydig o santesau brodorol a ystyrid yn wleidyddol bwysig ac o bosib yr eglura hyn pam mae cyn lleied o Fucheddau ar gael. Yn naturiol mae'n bosib i rai ohonynt gael eu colli, ond ni all rhywun ddiystyru'r posibilrwydd yn llwyr na chafodd llawer o'r 'storïau' bucheddol hyn eu hysgrifennu o gwbl ac mai dim ond yn y traddodiad llafar yr oeddent yn fyw. Gan mai ar gyfer ei thraddodi'n llafar y bwriedid llenyddiaeth ganoloesol yn gyffredinol ac ar gyfer perfformio cyhoeddus yn hytrach na darllen preifat, gallai rhywun ddyfalu'n rhesymol y byddai Bucheddau saint lleol yn cael eu hadrodd ar ddyddiau arbennig fel dyddiau gŵyl, neu ar bererindodau i ffynnon neu greirfa sanctaidd y sant, a bod y boblogaeth leol yn gyfarwydd â'r traddodiadau hyn, er nad oeddent wedi darllen *vita* neu fuchedd swyddogol erigol. Cefnogir y ddamcaniaeth hon ymhellach gan natur y dystiolaeth ar gyfer y santesau. Ceir darnau o'u traddodiadau canoloesol mewn barddoniaeth, gweddïau ac achau Cymraeg brodorol, eto prin yw'r Bucheddau sydd wedi goroesi.

### **Santes Melangell**

Enghraifft nodedig o santes y mae'n debyg i'w chwedl fod yn fyw yn y traddodiad llafar, o bosib cyn ei chofnodi'n ysgrifenedig yw Melangell (neu Monacellae) – nawddsantes ysgyfarnogod. Yn ei heglwys ym Mhennant Melangell saif cysegrfa Romanësg o'r ddeuddegfed ganrif, a ailadeiladwyd ym 1958, ac eto ym 1991, o ddarnau y daethpwyd o hyd iddynt yn walïau'r eglwys a phorth y fynwent. Efallai fod creiriau'r santes yn y gysegrfa ar un adeg, neu ynteu, efallai ei bod wedi'i lleoli uwchben bedd cist y daethpwyd o hyd iddo yn aps dwyreiniol yr eglwys. Yn sicr erbyn y ddeuddegfed ganrif credid bod yr eglwys ym Mhennant Melangell yn anrhydeddu creiriau'r wryf sanctaidd Melangell.<sup>32</sup> Cyfeirir ati gan y bardd o'r bymthegfed ganrif Lewys Glyn Cothi a'i chrybwyll deirgwaith ym marddoniaeth Guto'r Glyn (c.1435-c.1493).<sup>33</sup> Mae tri chopi cyflawn a dau gopi anghyflawn ar gael

o'i Buchedd Lladin, *Historia divae Monacellae*, mewn llawysgrifau a chyfnodolion yn dyddio o ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Awgryma Radford a Hemp i'r Fuchedd gael ei chyfansoddi yn niwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg neu'r bymthegfed ganrif, o bosib pan ychwanegwyd at yr eglwys a'i moderneiddio, ond awgryma Pryce iddi gael ei chyfansoddi rywbryd rhwng diwedd y bymthegfed a dechrau'r unfed ganrif ar bymtheg gan ei bod yn tynnu ar ffynonellau llafar yn ogystal â deunydd ysgrifenedig cynharach.<sup>34</sup> Darluniadol yn hytrach na thestunol yw'r cofnod cynharaf o chwedl Melangell, gan fod sgrîn y grog wedi'i cherfio o ddiwedd y bymthegfed ganrif yn ei heglwys ym Mhennant Melangell yn darlunio ysgyfarnog fawr yn rhedeg tuag at yr abades, er mwyn cael ei hamddiffyn rhag y cŵn hela a oedd yn ei herlid. Ar ochr chwith y sgrîn, darlunnir Brochwel Ysgithrog ar gefn ceffyl yn dal cleddyf ac mae un o'i ddynion yn canu'r corn hela.<sup>35</sup>

Yn ôl *Historia divae Monacellae*, ffodd Melangell o Iwerddon i Gymru er mwyn osgoi priodas wedi'i threfnu. Ymsefydlodd mewn pentrefan anhygyrch ym Mhennant Melangell a mwynhau bywyd tawel, heddychlon a myfyriol am bymtheng mlynedd pan nad edrychodd o gwbl 'ar wyneb dyn'.<sup>36</sup> Yna un diwrnod daeth wyneb yn wyneb â Brochwel Ysgithrog yn hela ysgyfarnog. Cyrtydodd ei gŵn a gwrthod mynd at yr ysgyfarnog a sbeciai allan o dan waelod sgert Melangell. Penderfynodd Brochwel, wedi dod yn ymwybodol o sancteiddrwydd Melangell, roi darn sylweddol o dir iddi sefydlu lleiandy a noddfa i amddiffyn unrhyw un a chwiliai am loches. Ar ôl marwolaeth Melangell yn unig y tarfwyd ar y tawelwch pan:

a certain person by the name of Elise, came to Pennant Melangell, who, desiring to ravish, seize and defile the same virgins, came to an end most wretchedly and perished suddenly. Whoever has violated the aforementioned liberty and protected holy place of the said virgin has rarely been said to avoid divine vengeance in this region, as one can perceive every day.<sup>37</sup>

Mae'r neges a gyflwynir yn yr *Historia*'n gwbl eglur. Mae unrhyw un sy'n ceisio troseddu yn erbyn un o wryfon Crist mewn perygl o ddioddef dialedd dwyfol. Mae'r rhai sy'n bygwth neu'n niweidio'r santesau'n aml yn cael eu melltithio, yn cael eu llyncu gan y ddaear, eu toddi, eu rhewi neu'n dioddef marwolaeth erchyll sydyn. Yn *Vita sancte Wenefrede*, er enghraifft, mae Beuno'n melltithio'r un a lofruddiodd Gwenfrewi ac mae yntau'n toddi a thorri'n ddarnau'n syth.<sup>38</sup> Mae Melangell yn

ffodus yn yr ystyr ei bod eisoes wedi ymadael â'i bywyd ar y ddaear cyn i'r darpar dreisiwr ymweld â Phennant Melangell â bwriadau drwg, ond nid yw santesau eraill (fel Gwenfrewi ac Eluned) mor ffodus.

### **Gwryfon a ferthyrwyd**

Dywedir i nifer o santesau Cymreig gael eu merthyru gan gynnwys Dunawd, Tudful, Tybïe, Gwen, Enfail a Maches. Caiff Dunawd, a grybwyllir ym Mucheddau Dewi Sant yn unig, ei llofruddio'n greulon gan ei llysfam Satrapa:

Sef a oruc y vorwyn da, diweir, war, gymenn, rodi y phenn yn arffet y llysuam. Sef a oruc y llysuam, tynnv kylllell a llad penn y vorwyn santes. Ac yn y gyfeir y dygwydawd y gwaet y'r llawr, yd ymdangosses ffynnyawn. A llawer o dnyon a gauas yechyt a gwaret yno. A hyt hediw y gelwir y ffynnam honno Ffynnam Dunawt, kanys Dunawt oed enw y vorwyn.<sup>39</sup>

[Gosododd y forwyn dda, ddiwair, war, huawdl ei phen yn arffed ei llysfam. Tynnodd y llysfam gyllell a thorri pen y forwyn sanctaidd. Ac yn yr union fan lle cwmpodd y gwaed ar lawr, ymddangosodd ffynnon sanctaidd. A chafodd llawer o bobl eu hiachau yno a chael gwaredigaeth. A heddiw gelwir y ffynnon hon o hyd yn Ffynnon Dunawd, gan mai Dunawd oedd enw'r forwyn.]

Llofruddiwyd pedair o ferched Brychan Brycheiniog gan baganiaid o Sacsoniaid, yn ôl Iolo Morganwg (1747-1826), sef Tybïe o Landybïe, Tudful o Ferthyr Tudful, Gwen o Dalgarth ac Enfail o Ferthyr Enfail. Er bod y tair yn ymddangos yn gyson yn achau canoloesol Brychan, llawysgrifau Iolo Morganwg yw'r unig ffynhonnell sy'n crybwyll eu merthyrdod, ac fel arfer mae Iolo'n ychwanegu'r fformwla ganlynol i'r achau: 'lle ai llas gan y Paganiaid Saeson' [lle y'i lladdwyd gan baganiaid o Saeson].<sup>40</sup> Fodd bynnag yn achos Tudful mae'n ymhelaethu ar ei chwedl, gan honni i Tudful gael ei lladd tra'n ymweld â'i thad Brychan a oedd yn heneiddio. Ar ôl ei gweld yn cael ei merthyru, ymunodd ei brodyr â'r gwrthdaro gan ruthro ar ôl y paganiaid i ddial ei marwolaeth, ond lladdwyd Rhun, un o feibion Brychan, yn yr ymosodiad. Yn y diwedd gyrrwyd y paganiaid i ffwrdd gan nai ifanc Tudful, Nefydd ap Rhun, a oedd wedi'i ddigio gan farwolaeth ei dad. Yma mae Iolo'n gwneud Tudful o Forgannwg yn fam i Brochwel Ysgithrog, arwr eponymaidd a gysylltir fel arfer â Phowys ac sydd, fel y gwelsom eisoes, yn rhoi tiroedd ar gyfer noddfa Melangell.<sup>41</sup> Er bod Iolo Morganwg yn gasglwr brwd o lawysgrifau Cymraeg ac yn gopiwr eiddgar, rhaid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'i nodiadau ar y seintiau Cymraeg, gan ei fod yn enwog am ffugio deunydd 'canoloesol' yn gelfydd ac ychwanegu at ambell draddodiad, yn enwedig y rhai a gysylltir â Morgannwg.

Daw un enghraifft o'r ffordd y mae hanesion Iolo Morganwg yn wahanol i'r traddodiadau canoloesol i'r amlwg yn ei hanes am ferthyrdod Maches. Yn ôl Iolo Morganwg, cafodd Maches, a oedd yn hoff o gynnig elusen i'r tlodion, ei thrywanu yn ei brest gan bagan o Sacson a oedd wedi'i wisgo fel cardodyn. Mae Iolo'n honni bod Maches yn chwaer i Sant Cadog ac yn ferch i Sant Gwynllyw, eto nid yw *Vita sancti Cadoci* na *Vita sancti Gundleii* yn crybwyll Maches.<sup>42</sup> Fodd bynnag, rhoddir hanes merthyrdod y wryf Maches (Machuta) ym Muchedd Lladin Sant Tathan (Tatheus) o'r ddeuddegfed ganrif, lle dywedir i ben Maches gael ei dorri gan ladron a oedd yn awyddus i ddwyn hwrdd o'i phraidd. Mae'r llofruddion yn cyffesu'r cyfan i Sant Tathan sy'n ymweld â'r fan lle merthyrwyd y wryf:

In that same place he founded a church built in honour of the virgin Machuta. He refused to allow there the virgin's body, but only in the same place where alone it ought to lie. Therefore it was carried to Caerwent, and buried in the floor of the church and may her soul rest in eternal rest.<sup>43</sup>

Darlunnir Santes Maches yn dal ffon fugeiles mewn gwydr lliw modern yn eglwys Llandogo ger Caerwent.<sup>44</sup> Mae'r arysgrif ar y ffenestr, a gysegrwyd yn 1929 er cof am y Parch Llewellyn Arnott Rees a'i wraig Elizabeth Mary Rees, yn dweud: 'Sta Machuta Virgo et Martyr'. Efallai i'w rôl fel bugeiles beri iddi gael ei chymysgu â Santes Marged o Antioch, santes fwy poblogaidd ac enwocach a ddarlunnir yn gofalu am braidd ei mam faeth ar ddechrau ei Buchedd ganoloesol. Mewn cywydd diddorol o'r bymthegfed i Santes Marged mae'r bardd Thomas Derllysg (*fl.* 1460-90) yn awgrymu bod y Santes o Antioch wedi'i chladdu yn Llanfaches, ger Caerwent, ac y bydd y plwyfolion lleol Cymreig yn elwa'n ysbrydol ar eu cysylltiad â Marged gan mai dyma'r man lle dioddefodd:

Sôn am eurgrair Sain Margred  
Uwch Caer Went i iachau cred  
Un ferch wen o Vorach oedd  
I Dewdus a da ydoedd  
Llyma ferch lle mae i fedd  
Llan faches lleian fuchedd  
Dywedaf i'm diwydion  
Fuchedd hoff o achoedd hon  
Un Dewdus un da ydoedd...  
...Margred sydd yn arwydd nef  
Am iddi yma oddef  
Mae nef yn gartref i gyd  
I'w phlwygyogion o'i phlegid.<sup>45</sup>

[Sôn am eurgrair Santes Marged, i iachau cred, uwch Caerwent, hi oedd unig ferch Dewdus o Forach ac roedd hi'n dda. Dyma ferch y mae ei bedd yn Llanfaches, a'i

buchedd yn un lleian. Dywedaf wrth y ffyddlon, hoff Fuchedd, un o ach Dewdus oedd ... Marged sydd yn arwydd nef. Am iddi ddioddef yma, mae'r nef yn gartref i gyd i'w phlwyfolion o'i phlegid.]<sup>46</sup>

Mae gweddill y gerdd yn gymharol hawdd ei deall ac yn rhoi'r hanes safonol a gysylltir â Marged o Antioch, ei charcharu a'i chosbi gan Olibrius, ei chyfarfyddiad â'r diafol wedi'i wisgo fel draig a'i merthyrdod arwrol.

### **Seintiau cyffredinol a oedd yn boblogaidd yng Nghymru**

Cafodd Bucheddau'r santesau cyffredinol boblogaidd Marged o Antioch, Catrin o Alecsandria, Mair o'r Aifft, Mair Fadlen a Martha eu cyfieithu i'r Gymraeg rywbryd cyn canol y bedwaredd ganrif ar ddeg. Maent ar gael mewn nifer o lawysgrifau Cymraeg Canol gan gynnwys yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, lawysgrif Peniarth 5 a oedd yn wreiddiol yn rhan o Lyfr Gwyn Rhydderch, casgliad canoloesol pwysig a luniwyd ar gyfer Rhydderch ab Ieuan Llwyd a'i deulu o Barchrhydderch, Llangeitho.<sup>47</sup> Nid yw'r pum Buchedd hyn, fodd bynnag, bob amser yn ymddangos gyda'i gilydd fel cyfres gyflawn nac ychwaith yn ymddangos yn yr un llawysgrifau nac yn yr un drefn. Fel arfer maent yn rhan o gompendiwm o destunau crefyddol at ei gilydd ac weithiau ceir hefyd chwedlau secwlar, deunydd meddygol, gwyddonol neu achyddol gyda nhw. Fel y gwelir yn y traddodiadau a gysylltir â'r santesau Cymreig, mae llawer o Fucheddau'r santesau cyffredinol hyn yn greulon a threisgar ac mae llawer yn canolbwyntio ar y frwydr barhaus i gadw diweirdeb y santesau. Ac eithrio'r puteiniaid edifeiriol Mair Fadlen a Mair o'r Aifft, gwryfon yw pob un o'r merched sanctaidd hyn ac mae eu sancteiddrwydd a'u cryfder ysbrydol wedi'u cysylltu'n agos â'u purdeb corfforol. Mae Marged o Antioch a Catrin o Alecsandria'n dioddef cael eu poenydio mewn amrywiaeth erchyll o ffyrdd, ond yn gwrthod yn stoicaidd ag ildio i ewylllys eu poenydwyr. Ym Muchedd Catrin, er enghraifft, caiff Catrin ei charcharu ddwywaith a'i churo'n ddidrugaredd am ei bod yn gwrthod priodi â'r ymerawdwr Macsen (Magnus Maximus) ac addoli ei dduwiau paganaidd. Mae'r Fuchedd Gymraeg Canol yn rhoi disgrifiad byw o anafiadau corfforol y santes:

Heb ohir kymer6ch yr ynvyt honn a dody6ch hi 6rth brenn yn r6ym. a meyd6ch hi a g6yeil hyt ban debyccoch ch6i y mar6. ar g6yr dr6c hynny ae maeda6d hi yny reda6d y g6aet allan oe chorff. ym pob lle. mal y rettey d6fyr y gaeaf. hynny yttoed y chna6t g6yn hi yn velyn vegys y violet.<sup>48</sup>

[Heb oedi, cymerwch y ferch wallgof hon a'i chlymu wrth goeden, a'i churo â phrennau hyd nes ei bod yn ymddangos yn farw. Ac fe'i curwyd gan y gwŷr drwg hynny hyd nes i waed lifo o bob rhan o'i chorff, yn union fel y mae dŵr yn rhedeg yn y gaeaf, a hyd nes i'w chroen gwyn droi'n felyn, [gyda chleisiau] fel y fioled[au]]<sup>49</sup>

Metha ymgais bellach i boenydio Catrin, pan ymddengys angylion a thorri'r olwynion â llafnau fel cyllyll ar eu hymylon sydd wedi'u llunio i rwygo cnawd y wryf yn ddarnau. Darlunnir Catrin fel arfer ag un olwyn yn unig, er bod y ddyfais a ddyfeisiwyd yn benodol gan y Cwrsatiaid i boenydio'r wryf mewn gwirionedd yn offeryn cymhleth yn cynnwys pedair olwyn a fyddai'n troi yn erbyn ei gilydd gan rwygo cnawd y wryf o bob cyfeiriad. Ceir nifer o ddelweddau canoloesol o Catrin a'i holwyn yng Nghymru: fe'i darlunnir bob amser yn gwisgo coron, gyda gwallt hir yn llifio, ac yn dal y cleddyf a'i merthyrodd. Ar banel alabastr ar feddrod John White a'i wragedd Margaret Phelp a Christina Einon yn Eglwys y Santes Fair, Dinbych y Pysgod, darlunnir Catrin yn defnyddio offeryn ei merthyru fel arf: mae'n sefyll yn fuddugoliaethus dros Macsen ac yn ei drywannu yn ei berfedd â blaen ei chleddyf.

Mae Buchedd Gymraeg Catrin yn arbennig o ddiddorol gan ei bod, mewn sawl man, yn wahanol iawn i'r fersiynau mwyaf poblogaidd o Fuchedd Catrin, gan gynnwys y Fwlgat, *Legenda Aurea* a'r Fersiynau Saesneg Canol a geir yn *South English Legendary* a *Festial* gan Mirk.<sup>50</sup> Mae'n fersiwn cryno, cyflym ac arbennig o dreisgar o ddioddefaint Catrin lle gall rhywun o bosib synhwyro naws fwy secwlar.<sup>51</sup> Mae'n debycach i Fuchedd fydr Saesneg anarferol o'r bymthegfed ganrif a geir yng Nghaergrawnt, Llyfrgell y Brifysgol, MS Ff, 2, 38 a Rhydychen, Llyfrgell Bodleian, MS Rawlinson Poetry 34.<sup>52</sup> Yn ddiddorol, mae gan Caergrawnt Ff, 2, 38 a Llyfr Gwyn Rhydderch lawer yn gyffredin gan gynnwys trefn eu cynnwys sydd, yn fras, yn symud o ddeunydd crefyddol i foeswesi a rhamantau secwlar. Maent hefyd yn rhannu nifer o destunau gan gynnwys Bucheddau Catrin, Marged a Mair Fadlen, dyrchafael Mair, y Pymtheg Arwydd cyn Dydd y Farn a hanes Bevis o Hampton. Ymddengys i'r ddwy lawysgrif at ddefnydd y cartref gael eu llunio er addysgu, difyrru a lles ysbrydol teuluoedd llyeg.<sup>53</sup> Tra bod Porphyrius, stiward macsen, yn dioddef merthyrdod yn dawel yn dilyn ei dröedigaeth i Gristnogaeth yn y rhan fwyaf o'r fersiynau o Fuchedd Catrin, yn y fuchedd Gymraeg a'r farddoniaeth Saesneg o'r bymthegfed ganrif Life mae'n ymladd yn ôl. Ym Muchedd Catrin mae Porffir yn dial drwy gael gafael ar ysgol ac mae'n llwyddo i ladd 4,000 o ddynion Macsen ac yn niweidio 4,000 o rai eraill cyn iddo gael ei ladd ei hun.<sup>54</sup> Mae *Buchedd Catrin* hefyd

yn rhoi trefn arall i'r digwyddiadau ac yn gosod merthyru'r frenhines a Porffir cyn y digwyddiad yn ymwneud â'r pedair olwyn. Yn dilyn merthyru Catrin a'i chladdu ar Fynydd Sinai, llifa pedair ffrwd o olew o'i bronnau sy'n iachau unrhyw gredinwyr sy'n ymweld â'r safle. Mae olew fel arfer yn llifo o feddrod Catrin ac o'i hesgryn, ond nid o'i bronnau. Roedd y traddodiad hwn, sydd eto wedi'i neilltuo i'r *fuchedd* Gymraeg a'r farddoniaeth Saesneg o'r bymthegfed ganrif Life, yn gyfredol ymysg beirdd Cymraeg canoloesol sy'n dangos eu bod yn gyfarwydd â fersiwn Cymraeg eu Buchedd. Er enghraifft, mae Lewys Glyn Cothi, mewn cerdd yn canmol Gwilym ap Gwallter a'i wraig Siwan Ddu, yn cymharu'r cyflenwad hael o win a dderbynia yn eu tŷ â llif egnïol yr olew o fronnau Santes Catrin.<sup>55</sup> Mewn awdl o'r bymthegfed ganrif i Catrin, mae Siôn ap Hywel yn cyfeirio at yr 'iach fron' sydd ganddi ac yn gobeithio y bydd y santes yn gwrandao ar ei gais am iachawdwriaeth gan iddi hi ei hun ddioddef poen a phoenyddio corfforol.<sup>56</sup> Mae'r manylder ar ddiwedd y Fuchedd Gymraeg rywfaint yn annisgwyl, gan fod Macsen yn gorchymyn i fronnau ei wraig gael eu torri ymaith yn gosb am ei thröedigaeth i Gristnogaeth, ond ni chaiff bronnau Catrin eu torri ar unrhyw adeg yn ystod y poenyddio.<sup>57</sup>

O'r holl ddulliau niferus o boenyddio a ddisgrifir ym Mucheddau'r santesau, un o'r dulliau mwyaf erchyll yw torri bronnau'r santes. Caiff bronnau Barbra ac Agatha eu rhwygo ymaith oherwydd iddynt, fel Catrin, wrthod ag aberthu i dduwiau paganaidd a gwrthod â phriodi eu poenydwyr. Caiff y ddwy eu carcharu ac yn y pen draw torrir eu pennau i ffwrdd.<sup>58</sup> Mae bronnau Agatha'n gwella'n wyrthiol yn ystod ei charchariad. Nid ymddengys i Fucheddau Barbra nac Anna gael eu cyfieithu i Gymraeg Canol, er y gwyddid am y ddwy santes yng Nghymru. Erfynnir ar Agatha gan y bardd Dafydd Nanmor (fl. 1450-90) mewn rhestr hir o 'saint yr ynys hon' [h.y. Prydain] y mae'n gobeithio y byddant yn amddiffyn Hari Tudur.<sup>59</sup> Mae Barbra yn un o'r santesau yr erfynnir arni mewn cerdd gan Lewys Morgannwg (fl. 1520-65) a gyfansoddwyd ar ran Margred Siôn o Goety yr ymddengys iddi fod yn dioddef o gancr y fron:

Bo ar weddi ber addef  
beri bron iach, Barbra nef,  
San Phred, Sant Margred a Mair,  
Sant Ann ar holl saint unair,  
Galw o nefoedd glain aviach,  
Gwenvrewy nerth, gwna vronn iach.<sup>60</sup>

[Nefolaidd Barbra, Ffraid, Marged a Mair, Sant Ann a'r holl saint yn unedig, boed i'r weddi bêr hon beri i'r fron gael ei gwella. Galw Gwenfrewi gref o'r nefoedd sanctaidd er mwyn gwella'r fron glaf.]

Ymddengys Barbra yn dal ei thŵr yn y ffenest ddwyreiniol yn eglwys plwyf yr Holl Saint, Gresffordd. Yn 1867 aildrefnwyd y ffenestr ddwyreiniol ganoloesol yng Ngresffordd a'i throi'n ffenest Te Deum gan Clayton a Bell. Ychwanegwyd llawer o wydr newydd gan gynnwys delwedd Barbra ac un arall o Apollonia.

Yn ogystal, darlunnir Santes Apollonia, nawddsantes y rhai sy'n dioddef o'r ddannoedd mewn pâr o efeiliau mewn dwy ffenest liw o ddiwedd y bymthegfed ganrif yng Ngresffordd.<sup>61</sup> Ymddengys fod y santes 'estron' hon a ddioddefodd boenyddio corfforol pan dynnwyd ei dannedd yn greulon fesul un gan ei phoenydwir paganaidd, yn sicr yn boblogaidd yng Nghymru. Fe'i crybwyllir hefyd mewn swyn yn un o'r testunau meddygol Cymraeg Canol sy'n cynghori'r claf i ysgrifennu gweddi fer i'r Iesu, Mair ac Apollonia a'i chlymu o gwmpas ei wddf i wella'r ddannoedd.<sup>62</sup>

### **Santes Wrswla a'r 11,000 o wryfon**

Santes arall ryngwladol enwog sydd â chysylltiad arbennig â Chymru yw Santes Wrswla. Yn ôl traddodiad Cymreig, hwyliodd Wrswla a'i 11,000 o wryfon o Langwryfon ger Aberystwyth, Ceredigion, ar eu pererindod olaf i Rufain ac fe'u merthyrwyd yng Nghwlen. Cyfieithwyd ei chwedl o'r Lladin i'r Gymraeg c. 1514 gan Huw Pennant ac mae wedi'i chadw mewn un llawysgrif, Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, MS Peniarth 182. Yn ôl *Hystoria Gweryddon yr Almaen*, gwrthododd Wrswla â phriodi tywysog paganaidd, ond fe'i gorfodwyd i gyfaddawdu er lles ei thad 'un o brenhinoedd Ynys y Kedyrn'[h.y. Prydain].<sup>63</sup> Cytunodd y byddai'n priodi ar ôl iddi ddychwelyd o'i phererindod. Hwyliodd Wrswla gyda'i 11,000 morwyn ac ar ôl ymweld â Chwlen, dyma nhw'n cyrraedd Rhufain lle y'u croesawyd yn wresog gan y Pab Prydeinig Curig. Fodd bynnag, wrth ddychwelyd i Gwlen darganfuont fod y ddinas o dan warchae a chyn hir cafodd holl gymdeithion gwryfol Wrswla eu llofruddio'n greulon. Ymddiheurodd y tywysog paganaidd, a oedd yn gyfrifol am y llofruddiaethau i Wrswla pan sylwodd ar ei phrydferthwch mawr a gofynnodd iddi ei briodi, ond gan iddi wrthod ei gynnig yn chwyrn, cymerodd ei fwa a'i saeth a'i saethu. Darlunnir Wrswla'n cysgodi ei chymdeithion o dan ei chlogyn ac yn dal y saeth a fu'n gyfrifol am ei merthyru mewn ffenestr liw fodern yn ei heglwys yn Llangwryfon. Codwyd yr eglwys bresennol ym 1883, a'i hadeiladu

gyferbyn â safle'r eglwys ganoloesol a arferai sefyll yn y fynwent gylchol yn Llangwryfon. Cyfeiria Gwerful Mechain (*fl.* 1462-1500), yr unig fardd Cymraeg o ferch y mae corff o'i chanu canoloesol wedi goroesi, at y 11,000 morwyn mewn cerdd a ysgrifennodd i amddiffyn Anni Goch (a merched yn gyffredinol) rhag ymosodiad deifiol gan fardd arall o'r enw Ieuan Dyfi. Rhestra ei 'Cywydd i Ateb Ieuan Dyfi am ei Gywydd i Anni Goch' ferched arbennig o rinweddol, ac fe'i hysgrifennwyd i ymateb yn uniongyrchol i gywydd Ieuan Dyfi a oedd yn beirniadu, nid yn unig ei gariad Anni Goch, ond y rhyw fenywaidd yn gyffredinol, gan restru enghreifftiau niferus o ferched a oedd yn bechaduriaid a throseddwyr <sup>64</sup> Ceir cofnod am *Gŵyl y Gweryddon* ar yr 21ain o Hydref mewn bron pob un o'r calendrau Cymreig.

### **Patrwm bywgraffyddol y santes**

Gellir ystyried gwryfyddod bron yn rhaganghenraid ar gyfer sancteiddrwydd benywaidd, a gwelir patrwm yn ymddangos yn nhraddodiadau'r santesau benywaidd sy'n gwbl wahanol i Fucheddau'r seintiau gwrywaidd. Noda Henken fod genedigaeth a chenhedliad anarferol y sant gwrywaidd yn debyg i eiddo'r arwr secwlar; fod plentyndod y sant fel arfer yn dangos ei fawredd, mae'n aml yn cyflawni gwyrth sy'n dangos ei fod yn 'dod allan i'r byd'; mae'n ddysgedig, fel arfer yn aeddfed o'i oedran ac yn cael addysg dda; mae'n cyflawni llawer o wyrthiau; mae'n iachau'r claf; mae'n cosbi anghredinwyr; mae'n byw'n hen ac fel arfer yn marw o achosion naturiol.<sup>65</sup> Dywed Henken fel a ganlyn am y santesau:

Tradition pays no, or virtually no, attention to their lives until they are confronted with male sexuality...The encounter with male sexuality is the only major element in the biographical pattern which appears with any consistency for the Welsh women saints.<sup>66</sup>

Gellir ychwanegu nifer o fanylion i batrwm bywgraffyddol y santesau: mae eu Bucheddau fel arfer yn dechrau yn eu llencyndod, pan benderfynant gysegru eu gwryfyddod i Grist a gwrthod priodi; dônt yn aml o deuluoedd bonheddig ac yn aml rhaid iddynt ffoi o'u gwlad enedigol er mwyn osgoi priodas wedi'i threfnu; weithiau mae hyn yn golygu siwrnai ar draws môr Iwerddon; ceisiant ffordd syml a hunanymwadol o fyw, gan addoli Crist (eu priod tragwyddol), ac maent naill ai'n byw ar eu pennau eu hunain neu'n sefydlu cymuned o ferched crefyddol; fodd bynnag,

dônt yn wrthrychau chwant gwrywaidd heb iddynt sylwi ac yn aml cânt eu herwgipio, eu bygwth, eu bygwth â thrais neu'u gorfodi i briodi, eu poenydio a thorrir eu pennau i ffwrdd.<sup>67</sup>

Dim ond wrth farw y mae'r santes yn cyrraedd gwryfodod parhaus a iachawdwriaeth dragwyddol, oherwydd tra'u bod ar y ddaear mae perygl o hyd y caiff ei gweld, ei hedmygu a'i llygru. Fel y noda Bloch 'a certain inescapable logic of virginity, most evident in medieval hagiography, leads syllogistically to the conclusion that the only good virgin - that is, the only true virgin - is a dead virgin'.<sup>68</sup> Fel arfer cyflwynir y gwrthdaro â rhywioldeb gwrywaidd i'r hanes drwy ddisgrifiad o'r cariadfab paganaidd yn syllu ar brydferthwch y santes, fel a geir yn yr enghraifft ganlynol o Fuchedd Gwenfrewi:

So Caradog gazing at the countenance of the girl made up of white and red and admiring the whole of her, fair in form and face, his heart in desire of her began to burn exceedingly.<sup>69</sup>

Diffiniad arall o eiddo Bloch o'r cysyniad canoloesol o wryf yw merch nad yw'n unig erioed wedi cysgu gyda dyn, nac wedi dymuno gwneud hynny, ond hefyd 'a woman who has never been seen by a man'.<sup>70</sup> Yn ddiddorol, llwydda Melangell i fyw bywyd heddychlon ym Mhennant Melangell gan nad oes dyn wedi edrych arni am bymtheng mlynedd. Mae'r santes yn croesawu cosb neu boenydio corfforol gan mai dyma'r rhagarweiniad i'w dyrchafu o fyd corfforol y synhwyrâu i'r gwastad lle caiff ei hysbrydolrwydd ei fodloni.

### **San Ffraid Leian**

Mae San Ffraid, santes gyfansawdd yn y traddodiad Cymreig (h.y. cyfuniad o'r Wyddeles Santes Birgid o Kildare a Santes Brigitta o Sweden) yn colli un o'i synhwyrâu dros dro er mwyn gwrachod ei gwryfodod. Pan geisiodd ei thad ei gorfodi i briodi, gweddïodd ar i Dduw ei helpu. Yn wyrthiol, neidiodd un o'i llygaid allan o'i phen, nes ei bod mae'n debyg mor wrthun yn gorfforol fel na fyddai neb yn dymuno ei phriodi, a phan giliodd y bygythiad iddi briodi, gwellodd ei hwyneb. Adroddir yr hanes hwn (sy'n deillio o Fuchedd Birgid o Kildare) mewn cywydd gan Iorwerth Fynglwyd (*fl.* 1485-1527):

Y dydd, y ceisiodd dy dad

wra yt, a'i roi atad,  
un o'th lygaid a neidiawdd  
o'th ben, hyn a'th boenai'n hawdd;  
a thrannoeth aeth yr wyneb  
oll yn iach, ni bu well neb.<sup>71</sup>

[Y dydd y ceisiodd dy dad ddod o hyd i ŵr i ti, a'i roi iddo, neidiodd un o'th lygaid allan o'th ben, a chefaist niwed mawr, ond y diwrnod canlynol, gwellodd dy wyneb i gyd, ni theimlodd neb erioed yn well.]

Mae llu o enghreifftiau o santesau a lleianod a dynnodd eu llygaid allan neu dorri eu trwynau er mwyn osgoi priodi neu dreisio. Disgrifia Schulenburg sut yr anffurfiai lleianod eu hwynebau'n gyson yn ystod ymosodiadau'r Llychlynwyr er mwyn osgoi ymyrraeth rywiol.<sup>72</sup> Ym Mhrydain dinistriwyd o leiaf deugain lleiandy yn ystod cyrchoedd y Llychlynwyr, ac erbyn adeg y Goncwest Normanaidd dim ond naw lleiandy a oedd ar ôl.<sup>73</sup> Mae'n debyg i anffurfio'r hunan gan santesau barhau ymhell i Anterth yr Oesoedd Canol, gan fod dull San Ffraid o osgoi priodas wedi'i threfnu'n cael ei ailadrodd yn y drydedd ganrif ar ddeg. Gwrthododd Santes Marged o Hwngari (a fu farw ym 1270) briodi dug Gwlad Pwyl, brenin Sisili a brenin Bohemia a phan glywodd fod y Pab yn bwriadu trefnu priodas iddi, dywedodd y byddai'n tynnu'i llygaid allan a thorri'i thrwyn i ffwrdd.<sup>74</sup>

### **Santes Dwynwen**

Mae nifer o santesau eraill yn dianc rhag priodasau nad oeddynt eu heisiau, ond daeth un santes yn arbennig yn gysylltiedig â pherthnasoedd priodasol a chariad digydnabod. Efallai mai Dwynwen, nawddsantes cariadon, y mae ei chwlt wedi adfywio'n ddiweddar fel y Sain Ffolant Cymreig, yw'r enwocaf o ferched dibriod Brychan Brycheiniog. Dethlir ei gŵyl o hyd yng Nghymru ar 25 Ionawr. Yn ôl y chwedl a geir yn llawysgrifau Iolo Morganwg, cwmpodd mewn cariad â Maelon Dafodrill, ond torrodd ei chalon pan dorrodd ef eu dyweddïad oherwydd ei bod yn gwrthod cael cyfathrach rywiol cyn priodi. Cosbodd Duw Maelon drwy ei droi'n ddarn o îa a rhoddodd dri dymuniad i Ddwynwen. Gofynnodd hi i Maelon gael ei ddadrewi, y byddai bob amser yn gallu clywed gweddïau unrhyw un a oedd yn dioddef o gariad digydnabod; ac na fyddai hi ei hun fyth eto'n dioddef poenau cariad, ond y byddai'n hytrach yn byw ar ei phen ei hun fel lleian ar ynys Llanddwyn.<sup>75</sup> Yn yr unfed ganrif ar bymtheg ychwanegwyd tair gweddi Ladin yn eiriol ar Ddwynwen at lyfr offeren Bangor (1494). Mae'r rhain yn cofnodi traddodiadau gwahanol iawn sy'n gysylltiedig â Dwynwen, gan eu bod yn honni i Dwynwen gerdded yn wyrthiol

ar draws Môr Iwerddon mewn arswyd rhag Maelgwn Gwynedd.<sup>76</sup> Gallai Maelgwn, gelyn secwlar cyson ym Mucheddau'r saint, yn wir fod wedi gwrthdaro â'r forwyn sanctaidd, o bosib drwy ofyn am ei phriodi a pheri i Dwynwen ffoi. Ym Muchedd Lladin Cadog, mae Maelgwn yn cipio merch un o swyddogion Cadog ac yn cael ei ddallu dros dro fel cosb am ymddwyn yn sarhaus tuag at y sant.<sup>77</sup> Gydol yr Oesoedd Canol roedd ynys Llanddwyn yn gyrchfan bererindota boblogaidd a cheir disgrifiad byw o iachau gwyrthiol yn y ffynnon sanctaidd mewn cywydd o'r unfed ganrif ar bymtheg gan Dafydd Trefor.<sup>78</sup>

Mae olion capel Dwynwen ar yr ynys yn dyddio fwy na thebyg o'r un cyfnod. Fodd bynnag, mae'n sicr fod capel cynharach ar yr ynys ac mae'n debyg ei fod yn cynnwys cerflun aur o Dwynwen a grybwyllir gan Dafydd ap Gwilym, y bardd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Mae'n eiriol ar Ddwynwen, ac yn gofyn iddi fod yn llatai (negesydd serch) ar ei ran a phersawdio'i gariad Morfudd i drefnu oed ag ef:

Dwynwen, pes parud unwaith  
Dan wŷdd Mai a hirddydd maith,  
Dawn ei bardd, da, wen y bych;  
Dwynwen, nid oeddud anwych.  
Dangos o'th radau dawngoeth  
Nad wyd fursen, Ddwynwen ddoeth.

[Dwynwen, pe perit i hyn ddigwydd unwaith dan goed Mai a [pheri] dydd hir, maith [i mi yno], - rhodd ei bardd [iddi hi'r ferch]! – da fyddet ti, yr un deg, [yn wir] Dwynwen 'doeddet ti ddim yn un sâl. Dangos trwy dy rasmusau llawn o ddawn nad wyt ti, Ddwynwen ddoeth, yn fursen.]<sup>79</sup>

Mae tôn chwareus y gerdd yn nodweddiadol o ganu serch Dafydd ap Gwilym. Mae'n fwy na pharod i fanteisio ar enw da Dwynwen fel gwryf sanctaidd ddiwair er mwyn trefnu oed anniwair a godinebus â'i gariad sy'n briod. Mewn cerdd ddychanol gan Dafydd Llwyd o Fathafarn (c.1395-1486) disgrifir Dwynwen fel santes hynod ddiwair na fydd, fodd bynnag, yn rhwystro eraill rhag godinebu.<sup>80</sup>

### **Herwgipto (Tegfedd a Gwladys)**

Tra bod mwyafrif y santesau'n wryfon sy'n llwyddo i osgoi priodi, caiff eraill eu herwgipto yn erbyn eu hewyllys gan y dynion a oedd eisiau eu canlyn ac mae rhai'n dod yn famau i seintiau enwog. Herwgiptwyd Santes Tegfedd, yn ôl cywydd Dafydd Llwyd o Fathafarn's cywydd i'w brawd Sant Tydecho, gan Cynan, ond

dychwelwyd hi'n ddiweddarach, heb golli ei gwryfyddod, a'i rhoi'n ôl i'w brawd a gafodd diroedd yn Arthbeibio hefyd yn ymddiheuriad.<sup>81</sup> Cipiwyd Santes Gwladys, un o ferched Brychan Brycheiniog, gan Frenin Gwynllyw a oedd yn awyddus i'w chael yn wraig iddo. Ar y ffordd i lys Gwynllyw fe'i gwelwyd gan y Brenin Arthur a'i ddynion ac, am ennyd, roedd mewn perygl o gael ei chipio oddi wrth ei herwgipwyr, gan i'r Brenin Arthur:

immediately very inflamed with lust in desire for the maiden, and filled with evil thoughts, said to his companions, 'Know that I am vehemently inflamed with concupiscence for this girl, whom that soldier is carrying away on horseback.' But they forbidding him said, 'Far be it that so great a crime should be perpetrated by thee, for we are wont to aid the needy and distressful. Wherefore let us run together with all speed and assist this struggling contest that it may cease.'<sup>82</sup>

Ni ddychwelir Gwladys byth at ei thad, gan fod dehongliad y Brenin Arthur o 'aiding the needy' yn golygu helpu Gwynlliw i'w chipio. Fodd bynnag, ar ôl genedigaeth eu mab, Sant Cadog, mae Gwladys a Gwynllyw'n ymwahanu ac mae hi'n byw bywyd sanctaidd tebyg i leian. Ymddengys y gellir cyfaddawdu gwryfyddod y santesau pan fydd cenhedliad sant yn y fantol. Rhoddir hanes dioddefaint Gwladys ym Mucedd Lladin ei mab Cadog a rhoddir fersiwn gwahanol o'r digwyddiadau ym Mucedd Gwynllyw ei gŵr.<sup>83</sup>

### **Treisio a mamolaeth (Santes Non)**

Mae'n ddiddorol, er bod bygwth treisio ynghudd mewn llawer o'r chwedlau sy'n gysylltiedig â'r santesau, mai'n anaml y'u treisir mewn gwirionedd. Yn *Buchedd Gwenfrewi* mynna Caradog yn ddigon eironig y caiff Gwenfrewi ei 'huno ag ef' o'i gwirfodd neu bydd yn torri ei phen ymaith â'i gledddyf: 'oni bydi di vn a mi oth vod y ledir dy benn ar cledyf hunn'.<sup>84</sup> Fel y gwelsom ym Muceddau Marged o Antioch a Catrin o Alecsandria, chwipir a phoenydir y santesau gwryfol â dwr berw a phroceri poeth neu fe'i clymir wrth olwyn cyn i'w pennau gael eu torri yn y diwedd, ond ni threisir eu gwryfyddod ar unrhyw adeg. Un eithriad i'r rheol hon yw Non, mam Dewi Sant, a dreisir gan Sant (neu Sanctus) brenin Ceredigion. Adroddir yr hanes yn *Vita Davidis Rhigyfarch* ac yn *Hystoria o Uched Dewi*:

Thirty years glided by in due course, and Sanctus, king of the people of Ceredigion, went to Dyfed and whilst passing through it, there met him a maiden called Nonita, exceedingly beautiful, a modest virgin. Her

the king, inflamed with desire, violated, who neither before nor after this occasion had any intercourse with any man, but continued in chastity of mind and body, leading a most faithful life; for from this very time of her conceiving, she lived on bread and water only.<sup>85</sup>

Gan i'r digwyddiad gael ei ragfynegi ddeng mlynedd ar hugain ymlaen llaw, mae'n anochel a dim ond gweithredu rhan o'r cynllun dwyfol mae Sant mewn gwirionedd. Ni cheir ymateb Non i'r treisio yn *Vita Davidis*, a does dim Buchedd Gymraeg i Non ar gael, fodd bynnag mae drama firagl Lydaweg ganoloesol, *Buez Santez Nonn*, yn rhoi pwyslais arbennig ar olygfa'r treisio ac yn disgrifio Non wedi'i syfrdanu am iddi golli ei gwryfod.<sup>86</sup> Mae'n ddiddorol nodi bod y *vita*'n pwysleisio fod Non yn ddiwair 'ei meddwl a'i chorff', gan yr ymddengys yr ystyrid gwryfod yn gyflwr meddyliol yn ogystal â chorfforol yn yr Eglwys Fore. Yng ngeiriau Awstin Sant:

the consecrated body is the instrument of the consecrated will; and if that will continues unshaken and steadfast, whatever anyone else does with the body or to the body, provided that it cannot be avoided without committing sin, involves no blame to the sufferer.<sup>87</sup>

Disgrifir Non yn 'ddinam' mewn cywydd y mae ei awdur yn anhysbys a chyfeiria Dafydd Llwyd o Fathafarn ati fel 'diwair-feichiog'.<sup>88</sup> Yn hytrach na difwyno cymeriad Dewi Sant, mae ei genhedlu anarferol yn amlygu'i fawredd ac mewn ffordd mae'n adleisio cenhedlu unigryw Crist.

Gan na allent hawlio genedigaeth wryfol i'r seintiau, byddai bucheddwyr yn aml yn ceisio pellhau mamau'r seintiau gymaint â phosibl o'r Pechod Gwreiddiol heb gael eu cyhuddo o gabledd. Unwaith yn unig y caiff rhieni Padarn Sant gyfathrach rywiol ac ar ôl cenhedlu Padarn maent yn byw bywyd mynachaid;<sup>89</sup> nid yw rhieni Beuno Sant erioed wedi cael cyfathrach, er gwaetha'r ffaith iddynt gysgu yn yr un gwely am ddeuddeng mlynedd, a dim ond wedi i angel ymweld â nhw a'u cyfarwyddo beth i'w wneud y llwyddant i genhedlu Beuno:

Ac val y gorchmynnawd yr angel vdunt, wynt ae gwnaethant. A beichiogi a gauas Beren y nos honno.<sup>90</sup>  
[Fe'i gwnaethant yn union fel y gorchmynodd yr angel a beichiogodd Beren y noson honno.]

Disgrifir cenhedlu Sant Collen mewn termau symbolaidd, gan nad oes sôn am dad. Un noson mae ei fam, Ethinen, yn breuddwydio i golomen ymweld â hi, cario ei chroth i'r nefoedd ac yna'n ei gosod yn ôl yn ei chorff. Y diwrnod canlynol mae'n darganfod ei bod yn feichiog.<sup>91</sup>

Yn y cyd-destun hwn mae'n haws deall pam y caiff Non ei threisio: er mwyn iddi genhedlu heb brofi pleser rhywiol. Mae'n anodd i'r meddylfryd modern dderbyn y traddodiadau canoloesol hyn. Ymddengys i Doble, er enghraifft, ei chael hi'n anodd cysylltu trais â sancteiddrwydd ac mae'n ei gysuro ei hun ei bod yn debygol na ddigwyddodd y trais o gwbl:

One day she fell into the power of Sant, the King of Ceredigion, the country in which she lived, - a violent, brutal man, like so many of those old Celtic chieftains. By him she became the mother of S. David...It is a sad story, but the great comfort is that it is not true.<sup>92</sup>

### Casgliadau

Felly gwelsom fod patrwm bywgraffyddol y santes yn wahanol i'r sant a bod sancteiddrwydd benywaidd (ac eithrio ambell santes o fam) yn cysylltu'n agos â gwryfod y santes. Tra bod diweirdeb yn bwysig o ran cyfansoddiad y sant gwrywaidd (ac yn aml, disgrifir y seintiau Celtaidd yn sefyll mewn dŵr rhewllyd er mwyn cael gwared ar chwantau'r cnawd), nid yw eu chwedlau'n canolbwyntio ar y frwydr i gadw eu gwryfod. Fel arfer darlunnir y santes yn ddi-ryw. Ni chaiff ei phoeni gan chwantau'r cnawd, eto fe'i disgrifir o hyd fel merch brydferth iawn a'i darlunio fel person benywaidd iawn. Mae benyweidd-dra a gwryfod yn ganolog i iconograffiaeth y santes ac fe'i darlunnir fel arfer fel priodferch Crist, yn gwisgo gorchudd pen a choron. Mae natur y santes, ar y cyfan, yn baradocsaid: mae, ar un llaw, yn ddioddefwraig ddiniwed, fregus, ond ar y llaw arall, yn fuddugwraig annibynnol a phwerus sy'n gorchfygu 'in an ecstasy of self denial' ac sy'n cael eu huno yn pen draw â'i phriodfab nefol.

I'r gwrthwyneb i honiad Willis Bund mai'n anaml y byddai menywod yn dod yn santesau yng Nghymru, gwelsom fod nifer sylweddol o santesau Cymreig mewn gwirionedd.<sup>93</sup> Dangosid parch at y gwryfon a'r mamau o seintiau hyn o'r Oesoedd Tywyll am nifer fawr o resymau gwahanol a chynigient wasanaethau a chymorth ymarferol gwerthfawr i'r ffyddlon gan gynnwys iachau, cyfarwyddo mewn materion priodasol ac amddiffyn i anifeiliaid. Yn bennaf oll, roedd pwerau'r *mulieres sanctae* hyn, llawer ohonynt wedi dioddef poenydio ac erledigaeth, i eiriol dros eraill, yn sicrhau eu bod yn boblogaidd ymysg y boblogaeth leol, gan y cyflwynid sancteiddrwydd yn lleol yng Nghymru ac na chanoneiddiwyd un o'r menywod hyn erioed gan yr Eglwys Babyddol Rufeinig. Priodolwyd chwedlau canoloesol i egluro

hanes y menywod sanctaidd hyn a fyddai, ar y cyfan, yn byw fel gwryfon a naill ai'n lleianod neu'n abadesau. Mae amrywiaeth mawr o ran i ba raddau mae eu traddodiadau canoloesol wedi goroesi. Tra bod llawer iawn o dystiolaeth am rai mewn ffynonellau canoloesol, mae'r cofnod ysgrifenedig am eraill wedi diflannu i bob pwrpas. Efallai mai dim ond mewn enwau lleoedd y cofnodir eu henwau, (e.e. Llanllŷr, Llanerfyl, Eglwys Wrw), neu fe'u crybwyllir yn fyr yn y calendrau neu'r achau Cymreig (e.e. Rhyddlad, Callwen, Gwenfyl a Gwenfaen).<sup>94</sup> Enwir rhai o'r santesau llai adnabyddus yn achlysurol ym marddoniaeth y Cywyddwyr neu mewn testunau cyfreithiol canoloesol (e.e. Tegfedd a Gwenog), tra crybwyllir eraill ym mucheddau'r seintiau gwrywaidd yn unig (e.e. Gwladys, Dunod, Maches).<sup>95</sup> Ymddengys fod rhai cymeriadau fel Helen mam Cystennin Fawr a Thecla o Iconium wedi'u cyfuno â'r traddodiad Cymreig oherwydd y tebygrwydd rhwng eu henwau ac enwau cymeriadau Cymreig (Elen a Tegla). Cyfunwyd Santes Helen ag Elen Luyddog, cymeriad mytholegol sy'n priodi â'r Ymerawdr Rhufeinig Macsen Wledig (Magnus Maximus) yn y chwedl Gymraeg Canol *Breudwyd Maxen*. Cyfieithwyd *The Invention of the True Cross* hefyd i Gymraeg Canol— *Val y cauas Elen y Grog*.<sup>96</sup> Mewn llawysgrif o ddechrau'r drydedd ganrif ar ddeg, Lambeth Palace MS 34, mae nifer o wyrthiau sy'n gysylltiedig â Sant Tegla o Landegla, Powys, yn ffurfio atodiad i *Passio S. Theclae*, dioddefaint Santes Thecla o Iconium.<sup>97</sup>

Gallai poblogrwydd anferth y santesau Cymreig beri i rywun feddwl fod Cymru'r Oesoedd Canol yn amgylchfyd ffafriol ar gyfer merched crefyddol, ond mae'n syndod nad oedd hynny'n wir. Dim ond tri lleiandy wedi'u sefydlu ers tro a oedd yng Nghymru'r Oesoedd Canol ac roeddent yn fach, yn dlawd ac mae'n debygol mai nifer fach iawn o leianod oedd yno.<sup>98</sup> Er gwaetha'r ffaith fod tywysogion ac uchelwyr Cymreig yn ymddangos yn hoff iawn o noddi tai'r mynachod Sistersiaid, nid ymddengys yr un brwdfrydedd i fuddsoddi dros dymor hir mewn tai i ferched crefyddol. Does dim dwywaith fod arwyddocâd arbennig i greiriau Eluned i leianod Benedictaidd Brynbuga, ond ymddengys mai dim ond i raddau cyfyngedig iawn y gwelwyd santesau Cymru fel modelau rôl briodol i ferched Cymru'r Oesoedd Canol. Honnir i'r holl santesau hyn fyw yn ystod y bumed, chweched a'r seithfed ganrif ac ni pharhaodd y traddodiad o roi statws sanctaidd yng Nghymru i'r Oesoedd Canol.<sup>99</sup> Mewn mannau arall, parheid i ystyried merched sanctaidd fel Marged o'r Alban (c.1045-1093), Christina o Markyate (c.1097-c.1161), Malfada o Bortiwgal (1184-1257) a Marged o Cortona (1247-97) yn santesau. Fodd bynnag, yng Nghymru, prin

yw'r merched bonheddig a anogid i ddilyn ôl troed y seintiau ac ymneilltuo i fyw bywyd o fyfyrddod. Gellid dadlau, o ran y gymdeithas Gymreig yn yr Oesoedd Canol, mai'r math gorau o wryf *sanctaid* yn wir oedd gwryf *farw*.

## NODIADAU

<sup>1</sup> Am argraffiadau o'r Bucheddau hyn, gweler *Rhigyfarch's Life of St. David*, gol. a chyf. J.W. James (Caerdydd, 1967); *The Welsh Life of St David*, gol. D. Simon Evans (Caerdydd, 1988); *Vitae Sanctorum Britanniae et Genealogiae*, gol. a chyf. A. W. Wade-Evans (Caerdydd, 1944); *The Liber Landavensis*, gol. W. J. Rees (Llanymddyfri, 1840). Nid oes fersiwn Lladin cyfatebol ar gael o *Hystoria o Uuched Beuno*.

<sup>2</sup> S. Baring-Gould a J. Fisher, *The Lives of the British Saints*, I-IV, (London, 1907-13); Elissa R. Henken, *Traditions of the Welsh Saints* (Cambridge, 1987).

<sup>3</sup> Gweler, er enghraifft, T. Charles-Edwards, *Saint Winefride and Her Well: the historical background* (Treffynnon, dim dyddiad); Christopher David, *St Winefride's Well: a history and guide* (Kildare, 1971); F. Winward, 'The Lives of St. Wenefred (BHL 8847-8851', *Analecta Bollandiana*, 117 (1999) 100-103; *Two Mediaeval Lives of Saint Winefride*, cyf. Ronald Pepin a Hugh Feiss (Toronto, 2000); Huw Pryce, 'A new edition of the *Historia Divae Monacellae*', *Montgomeryshire Collections*, 82 (1994), 23-40; W. J. Britnell a K. Watson, 'Saint Melangell's shrine, Pennant Melangell', *Montgomeryshire Collections*, 82 (1994), 147-66. Gweler hefyd, T. Thornley Jones, 'The daughters of Brychan Brycheiniog', *Brycheiniog*, 17 (1976-77), 17-58. Er bod yr erthygl hon yn rhoi peth gwybodaeth werthfawr am ferched Brychan Brycheiniog, mae ei phrif bwyslais ar hanes cynnar Brycheiniog a'r 'perthnasoddd gwaed' rhwng cymeriadau santaidd a chwedlonol.

<sup>4</sup> Y Cywyddwyr, neu Beirdd yr Uchelwyr, yw'r beirdd a ddefnyddiai mesur y cywydd yng Nghymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif. <sup>5</sup> Gweler, er enghraifft, E.G. Bowen, *The Settlements of the Celtic Saints in Wales* (Caerdydd, 1954) ac Idem., *Saints, Seaways and Settlements in the Celtic Lands* (Caerdydd, 1977).

<sup>6</sup> Heriwyd y cysyniad o'r Eglwys Geltaidd gyda chyfiawnhad gan Kathleen Hughes, 'The Celtic Church: is this a valid concept?', *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 1 (1981), 1-20 a Wendy Davies, 'The myth of the Celtic Church', yn *The Early Church in Wales and the West*, gol. N. Edwards a A. Lane (Oxbow Monograph 16, 1992), tt. 12-21.

- <sup>7</sup> J.W. Willis Bund, 'Some characteristics of Welsh and Irish saints', *Archaeologia Cambrensis*, 11, cyfres 5, (1894), tt. 279-80.
- <sup>8</sup> G. H. Doble, *S. Nectan, S. Keyne and the Children of Brychan in Cornwall*, Cornish Saints Series 25 (Exeter, 1930), t. 47.
- <sup>9</sup> Doble, *Saint Nonna*, Cornish Saints Series 16 (Liskeard, 1928), t. 6. Mae hefyd yn cysylltu Non â Nonna, noddwr gwrywaidd Penmarch yn Llydaw, oherwydd tebygrwydd eu henwau.
- <sup>10</sup> *Rhigyfarch's Life of St. David*, gol. a chyf. James.
- <sup>11</sup> David H. Farmer, *The Oxford Dictionary of Saints* (Oxford, 1992), tt. 55 a 500.
- <sup>12</sup> Gweler sylwadau Farmer hefyd ar Ninnog (un o ferched Brychan Brycheiniog): 'Her memory is kept alive by various images of her and by her feast on 4 June. There is also a worthless legendary Life' Ibid., t. 358.
- <sup>13</sup> J. Wyn Evans, 'The early Church in Denbighshire', *Transactions of the Denbighshire Historical Society*, 35 (1986), t. 65.
- <sup>14</sup> *Trioedd Ynys Prydein*, gol. a chyf. Rachel Bromwich (Caerdydd, 1978), t. 201.
- <sup>15</sup> *Early Welsh Genealogical Tracts*, gol. T.C. Bartrum (Caerdydd, 1966), tt. 14-16. Gweler hefyd tt. 17-19, 81-84.
- <sup>16</sup> Bowen, *Settlements of the Celtic Saints*, t. 26.
- <sup>17</sup> *Vitae Sanctorum*, gol. Wade-Evans, tt. xix a 318. Am gyfieithiadau o *De Situ Brecheniauc* a *Cognacio Brychan*, gweler A. W. Wade-Evans, 'The Brychan Documents', *Y Cymmrodor*, 19 (1906), 18-50. Am restr o amrywiol niferoedd plant Brychan, gweler, Jones, 'The daughters of Brychan', tt. 18-19.
- <sup>18</sup> Gerald of Wales, *The Journey through Wales and the Description of Wales*, cyf. Lewis Thorpe (London, 1978), tt. 91-92.
- <sup>19</sup> Er enghraifft, Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, MSS Peniarth 27i, Peniarth 60, Peniarth 186 a Pheniarth 187. Am restr gyfansawdd o wyliau'r santesau a manylion y ffynonellau Cymreig, gweler Jane Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod: Agweddau ar Wryfyddod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1999), tt. 180-86.
- <sup>20</sup> William Worcestre, *Itineraries*, gol. J. H. Harvey (Oxford, 1969), t. 155.
- <sup>21</sup> *Gwaith Tudur Aled*, gol. T. Gwynn Jones (Caerdydd, 1926), II, t. 524.
- <sup>22</sup> Baring-Gould a Fisher, *Lives of the British Saints*, III, 191, n. 2; IV, t. 403; *Vitae Sanctorum*, gol. a chyf. Wade-Evans, t. 293.

<sup>23</sup> Golygwyd y ddwy Fuchedd Ladin gan de Smedt *et al.*, *Acta Sanctorum*, November, I (Paris, 1887), tt. 691-731. Cafodd y *vita* anhysbys, a ddarganfuwyd yn Llundain, Llyfrgell Brydeinig, MS Cotton Claudius A.v, ei olygu a'i gyfieithu gan Wade-Evans, *Vitae Sanctorum*, tt. 288-309, a chyfieithwyd *vita* Prior Robert i'r Saesneg ym 1635 gan I. F. (John Falconer?), gweler *Robert, Prior of Shrewsbury. The Admirable Life of Saint Wenefride*, gol. D. M. Rogers, *English Recusant Literature 1558-1630*, 319 (London, 1976). Am gyfieithiadau diweddarach, gweler *Two Mediaeval Lives*, cyf. Pepin a Feiss. Cedwir y Fuchedd Gymraeg yn Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, MSS Peniarth 225, Llansteffan 34 a Llansteffan 104. Am argraffiad a thrafodaeth fanylach ar y llawysgrifau Cymraeg gweler Lisa Eryl Jones, 'Golygiad Newydd o *Fuched Gwenfrewi*' (traethawd M. Phil. heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru, Caerdydd, 2000).

<sup>24</sup> Hoffwn ddiolch i Richard Hamer a Vida Russell am ddanfôn copi o'u hargraffiad nhw o fersiwn y *Gilte Legende* o fywyd Gwenfrewi cyn ei gyhoeddi (ar fin ymddangos yn EETS). Rwyf hefyd yn ddiolchgar i Vida Russell am ei sylwadau defnyddiol ar fersiynau Saesneg Canol a Lladin *Vita Sancte Wenefrede* (gohebiaeth bersonol).

<sup>25</sup> G. Hartwell Jones, 'Celtic Britain and the Pilgrim Movement', *Y Cymmrodor*, 23 (1912), tt. 401-402; D. J. Jones, 'Cerddi'r Saint a'r Bucheddau Cyfatebol', (traethawd M.A. heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 1929), tt. 127-33; *Gwaith Ieuan Brydydd Hir*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2000), tt. 141-45; *Gwaith Tudur Aled*, gol. Jones, II, tt. 523-26; *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis *et al.* (Caerdydd, 1937), tt. 104-106; *Gwaith Siôn ap Hywel ap Llywelyn Fychan*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1999), tt. 73-75. Mae cyfeiriadau hefyd at Gwenfrewi a'i ffynon iachusol mewn cerddi eraill: gweler, er enghraifft, *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. L. Williams a I. Williams (Caerdydd, 1961), tt. 120, 123.

<sup>26</sup> Rhydychen, Llyfrgell Bodleian, MS Rawlinson B464, fol. 29<sup>r</sup>; Nancy Edwards a Tristan Gray Hulse, 'A fragment of a reliquary casket from Gwytherin, North Wales,' *The Antiquaries Journal*, 72 (1992), 91-101. Mae dyddio'r greirfa'n dibynnu nid ar ddyddio radio carbon, ond ar gymharu'r tariannau crynion metel a ddarlunnir yn narlun Lhuyd â thariannau tebyg ar greirfeydd Eingl-Sacsonaidd. Gweler hefyd L. Butler a J. Graham-Campbell, 'A lost reliquary casket from North Wales', *The Antiquaries Journal*, (1990), 40-48.

<sup>27</sup> Am greiriau Gwenfrewi, gweler Tristan Gray Hulse, 'The Cult of Relics in Wales', (traethawd M Phil heb ei gyhoeddi, i'w gyflwyno i Brifysgol Cymru, Llanbedr).

<sup>28</sup> David H. Williams, *Catalogue of Seals in the National Museum of Wales* (Caerdydd, 1998), II, t. 59, E486; Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod*, Plât 6.

<sup>29</sup> Gweler, er enghraifft, G. Williams, 'The Tradition of St David in Wales', yn *Links with the Past: Swansea and Brecon Historical Essays*, gol. O. W. Jones a D. Walker (Llandybïe, 1974), tt. 1-20; D. S. Evans, 'Y Bucheddau', yn *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Oesau Canol*, gol. Geraint Bowen (Llandysul, 1974), tt. 245-73; W. Davies, 'Property rights and property claims in Welsh "Vitae" of the Eleventh Century', *Hagiographie, Cultures et Sociétés, IVe-XIIe siècles* (Paris, 1981), tt. 515-33; Henken, *Traditions of the Welsh Saints*, tt. 5-6.

<sup>30</sup> Er enghraifft, rywbyrd ar ôl 1155, ailgysegrwyd eglwys Meifod i'r Forwyn Fair, Tysilio a Gwyddfarch. Mae'n debygol fod eglwys y plwyf gynharach yng Nghricieth, wedi'i chysegru i Santes Catrin o Alecsandria o'r drydedd ganrif ar ddeg, wedi'i chysegru'n wreiddiol i un neu fwy o seintiau brodorol Cymraeg. Mewn dogfen o ddiwedd yr Oesoedd Canol, cofnodir yr eglwys fel 'Llansaint' ac ymddengys i ffynnon sanctaidd yn yr ardal sef 'Ffynnon y Saint' gael ei chysylltu â Santes Catrin yn y cyfnod modern: M. A. Ward, 'St Catherine's Church, Cricieth', *Caernarvonshire Historical Society Transactions*, 58 (1997), 7-34.

<sup>31</sup> Bydd prosiect TASC, sydd ar y gweill ar hyn o bryd, yn rhoi cronfa ddata werthfawr o gysegriadau crefyddol yng Nghymru. Gweler Graham Jones, *Saints of Wales: An Inventory of Religious Dedications* (Aberystwyth: i'w gyhoeddi).

<sup>32</sup> W. J. Britnell and K. Watson, 'Saint Melangell's shrine, Pennant Melangell', *Montgomeryshire Collections*, 82 (1994), 147-66; Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod*, Plât IV.

<sup>33</sup> *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. Dafydd Johnston, tt. 25, 333; *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. I. Williams a J. L. Williams (Caerdydd, 1961), tt. 120, 171, 284.

<sup>34</sup> C. A. Raleigh Radford a W. J. Hemp, 'Pennant Melangell: the church and the shrine', *Archaeologia Cambrensis*, 108 (1959), cyfres 5, 81-113 (t. 82); Pryce, 'A new edition of the *Historia Divae Monacellae*', t. 30.

<sup>35</sup> M. H. Ridgway, 'Furnishings and fittings at Pennant Melangell church', *Montgomeryshire Collections*, 82 (1994), 127-38 (tt. 130-35).

<sup>36</sup> Pryce, 'A new edition of the *Historia Divae Monacellae*', t. 40.

<sup>37</sup> Ibid., t. 40. Mae'r testun Lladin yn darllen: 'Deinde statim ut ipsa virgo Monacella ab hac vita migravit quidam nomine Elisse venit ad Pennant Melangell, qui easdem virgines stuprare, rapere et polluere cupiens, misserrime expiravit et subito periit. Quisquis dictae virginis libertatem et sanctitatem præmissam violaverit, divinam in hac parte vltionem raro visus est evitasse, prout quotidie cernere licet.' Ibid., t. 38.

<sup>38</sup> *Vitae Sanctorum*, gol. a chyf. Wade-Evans, tt. 292-93.

<sup>39</sup> *The Welsh Life of St David*, gol. Evans, t. 6. Fy nghyfieithiadau i yw'r rhai o Gymraeg Canol oni nodir yn wahanol.

<sup>40</sup> *Iolo Manuscripts. A Selection of Ancient Welsh Manuscripts*, gol. Taliesin Williams (Llandovery, 1848), tt. 107-08, 120.

<sup>41</sup> Ibid., t. 121. On Iolo Morganwg, see G. J. Williams, *Iolo Morganwg* (Caerdydd, 1956); Geraint H. Jenkins, *Facts, Fantasy and Fiction: the Historical Vision of Iolo Morganwg* (Aberystwyth, 1998).

<sup>42</sup> *Iolo Manuscripts*, gol. Williams, t. 131.

<sup>43</sup> *Vitae Sanctorum*, gol. a chyf. Wade-Evans, t. 283.

<sup>44</sup> Rwy'n ddiolchgar i Moira Dearnley am ddanfôn ffotograffau o'r ffenestr liw yn eglwys Sant Oudoceus, Llandogo.

<sup>45</sup> Jones, 'Cerddi'r Saint a'r Bucheddau Cyfatebol', tt. 185-87.

<sup>46</sup> Yn llythrennol mae'r gair 'eurgrair' yn golygu 'crair aur', ond gellir ei ddefnyddio hefyd i ddisgrifio rhywbeth gwrthfawr. Gallai dehongliad arall o linell gyntaf y gerdd hon fod fel a ganlyn: 'Sôn am y Santes Farged a drysorir yn fawr'. Cf. 'Y Tad iawngrair' [y tad a drysorir yn fawr] yn 'Cywydd y llafurwr', Iolo Goch. *Iolo Goch Poems*, gol. a chyf. Dafydd Johnston (Llandysul, 1993), tt. 116-17.

<sup>47</sup> Am argraffiadau o'r Bucheddau Cymraeg Canol, gweler M. Richards, 'Buchedd Fargred', *Bulletin of the Board of Celtic Studies*, 11 (1939), 324-34; J. E. C. Williams, 'Buchedd Catrin Sant', *Bulletin of the Board of Celtic Studies*, 25 (1973), 247-68; I. Mittendorf, 'The Middle Welsh Mary of Egypt and the Latin Source of the *Miracles of the Virgin Mary*', yn *The Legend of Mary of Egypt in Medieval Insular Hagiography*, gol. Erich Poppe a Bianca Ross (Dublin, 1996), tt. 205-36; D. J. (Gwenallt) Jones, 'Buchedd Mair Fadlen a'r *Legenda Aurea*', *Bulletin of the Board of Celtic Studies*, 4 (1929), 325-39. Rwyf wrthi ar hyn o bryd yn llunio argraffiad o Fuchedd Cymraeg Canol Santes Martha sydd ar gael mewn wyth llawysgrif. Mae'r Bucheddau hyn i gyd yn Aberystwyth, Llyfrgell Prifysgol Cymru, MSS Peniarth 5, Llansteffan 34, Llansteffan 104 a Chaerdydd, Llyfrgell Ganolog, MS 2.6333 (*olim*).

Hafod 23). Ar gyfer Lyfr Gwyn Rhydderch, gweler Daniel Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Caerdydd, 2000), tt. 227-68.

<sup>48</sup> Williams, 'Buchedd Catrin Sant, t. 266.

<sup>49</sup> Ceir cyfieithiad mwy llythrennol, yn seiliedig ar: Llundain, Llyfrgell Brydeinig, MS Cotton Titus D, xxii, yn *Lives of the Cambro-British Saints*, gol. a chyf. William J. Rees (Llanymddyfri, 1853), t. 535: 'and her whole flesh was rendered yellow like violet'.

<sup>50</sup> *Seinte Katerine Re-Edited from MS Bodley 34 and the Other Manuscripts*, gol. S. R. T. O. d'Ardenne a E. J. Dobson EETS SS 7 (1981), tt. 144-203; Jacobus de Voragine, *The Golden Legend: Readings on the Saints*, cyf. William Granger Ryan (Princeton, 1993), cyfrol. 2, tt. 334-41; *The South English Legendary*, gol. Charlotte d'Evelyn a Anna J. Mill EETS ES 235-56, 244 (1956-59), cyfrol. 2, tt. 533-43; John Mirk, *Festial*, gol. Theodor Erbe EETS ES 96 (1905), tt. 275-57.

<sup>51</sup> Cf. sylwadau Jenifer Relvyn Bray ar y Fuchedd Saesneg Canol y daethpwyd o hyd iddi yng Nghaergrawnt, Llyfrgell y Brifysgol, MS Ff.2.38, 'The Legend of St Katherine in Later Middle English Literature' (traethawd Ph.D. heb ei gyhoeddi, Prifysgol Llundain, 1984), t. 233.

<sup>52</sup> Am argraffiad o'r Fuchedd fydr Saesneg, yn seiliedig ar Caergrawnt, Ff.2.38, gweler *Altenglische Legenden*, gol. Carl Horstmann (Heilbronn, 1881), tt. 260-64. Cyhoeddwyd ffacsimili o'r llawysgrif hon gyda chyflwyniad gan Frances McSparran a T. R. Robinson, *Cambridge University Library MS Ff.2.38* (London, 1979). Fodd bynnag, ychydig o drafod fu ar y Fuchedd fydr hon. Gweler Bray, 'St Katherine in Later Middle English Literature', tt. 107-13.

<sup>53</sup> Am drafodaeth ar gynnwys y llawysgrif Saesneg a'r gynulleidfa y'i bwriadwyd ar ei chyfer, gweler McSparran a Robinson, *Cambridge University Library MS Ff.2.38*, t. vii, xxi-xxv.

<sup>54</sup> Mae'r Fuchedd Gymraeg yn unigryw o ran yr arf a ddewisodd Porffir, ond nid dyma'r unig ffynhonnell sy'n adrodd hanes y digwyddiad hwn. Mewn Buchedd fydr Almaeneg o'r drydedd ganrif ar ddeg mae Porphyrius yn lladd 4,000 o ddynion Maxentius â pholyn. 'Katerinen Marter', gol. Johann Lambel, *Germania* 8 (1863), 129-86 (t. 174).

<sup>55</sup> *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. Johnston, tt. 68-69.

<sup>56</sup> *Gwaith Siôn ap Hywel ap Llywelyn Fychan*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1999), tt. 73-75. Cerdd hir yn y mesurau traddodiadol Cymraeg yw awdl.

- <sup>57</sup> Am drafodaeth fanylach ar Fuchedd Gymraeg Catrin o Alecsandria a'i chwlt yng Nghymru'r Canol Oesoedd, gweler J. Cartwright, '*Buchedd Catrin: a preliminary study of the Middle Welsh Life of Katherine and her cult in Medieval Wales*', yn *St Katherine of Alexandria: Texts and Contexts in Medieval Europe*, gol. Jacqueline Jenkins a Katherine J. Lewis (Bruxelles, i'w gyhoeddi).
- <sup>58</sup> Am Fucheddau Agatha a Barbra, gweler *The Golden Legend or Lives of the Saints as Englished by William Caxton*, gol. F. R. Ellis, cyfrol 1-7 (London, 1900), cyfrol. 3, tt. 32-39, cyfrol. 6, tt. 198-205.
- <sup>59</sup> *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, gol. Thomas Roberts ac Ifor Williams (Caerdydd, 1976), tt. 500-01.
- <sup>60</sup> Glanmor Williams, *The Welsh Church From Conquest to Reformation* (Caerdydd, 1976), t. 503, n. 1. Am gerddi eraill yn gysylltiedig â iachau gweler y bennod bwysig gan Christine James, 'Pen-rhys: Mecca'r Genedl', yn *Cwm Rhondda*, gol. Hywel T. Edwards (Llandysul, 1995), tt. 27-71.
- <sup>61</sup> Mostyn Lewis, *Stained Glass in North Wales up to 1850* (Altrincham, 1970), Platiâu 16 a 17.
- <sup>62</sup> 'Hafod 16 (A Mediaeval Welsh Medical Treatise)', gol. I.B. Jones, *Études Celtiques*, 7 (1955-56), 46-75, 270-339 (t. 74).
- <sup>63</sup> D. J. Gwenallt Jones, 'Hystoria Gweryddon yr Almaen', yn *Rhyddiaith Gymraeg. Y Gyfrol Gyntaf Detholion o Lawysgrifau 1488-1609*, gol. T. H. Parry-Williams (Caerdydd, 1954), tt. 18-22.
- <sup>64</sup> Gweler M. Haycock, 'Merched Drwg a Merched Da: Ieuan Dyfi v. Gwerful Mechain', *Ysgrifau Beirniadol*, 16 (1990), 97-110. Ar gyfer Gwerful Mechain, gweler C. Lloyd-Morgan, '“Gwerful, ferch ragorol fain”: Golwg Newydd ar Gwerful Mechain', *Ysgrifau Beirniadol*, 16 (1990), 84-96; Nerys Ann Howells, 'Astudiaeth Destunol a Beirniadol o Farddoniaeth Gwerful Mechain', (traethawd Ph.D. heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 1999).
- <sup>65</sup> Elissa R. Henken, *The Welsh Saints: A Study in Patterned Lives* (Cambridge, 1991), tt. 1-14; Idem., 'The saint as folk hero: biographical patterning in Welsh hagiography', yn *Celtic Folklore and Christianity*, gol. T. K. Ford (Santa Barbara, 1983), tt. 58-74.
- <sup>66</sup> Idem., 'Folklore of the Welsh Saints', (traethawd M.A. heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 1982), I, tt. 13-14. Gweler hefyd sylwadau Henken ar batrymu bywgraffyddol y santesau Cymreag, *The Welsh Saints*, tt. 6-9.

- <sup>67</sup> Am broffil nodweddiadol o'r santes wryfol a ferthyrir mewn llenyddiaeth frodorol o'r ddeuddegfed a'r drydedd ganrif ar ddeg, gweler Jocelyn Wogan-Browne, 'Saints' lives and the female reader', *Forum for Modern Language Studies*, 37 (1991), 314-32 (t. 315).
- <sup>68</sup> R. H. Bloch, 'Chaucer's maiden's head: *The Physician's Tale* and the poetics of virginity', *Representations*, 28 (1989), 113-34 (t. 120).
- <sup>69</sup> *Vitae Sanctorum*, gol. a chyf. Wade-Evans, t. 291.
- <sup>70</sup> Bloch, 'Chaucer's maiden's head', t. 117.
- <sup>71</sup> *Gwaith Iorwerth Fynglwyd*, gol. Howel L. Jones a E. I. Rowlands (Caerdydd, 1975), t. 94. Am Fucheddau Gwyddeleg Santes Brigid o Kildare, *Bethu Brigitte*, gol. Donncha [ hAodha (Dublin, 1978). Am dystiolaeth bellach o ddidordeb Cymreig yn Santes Birgitta o Sweden (1303-73) gweler y fersiwn Cymraeg Canol o bymtheg o weddiâu y priodolir iddi: Brynley F. Roberts, 'Pymtheg Gweddi San Ffraid a'r Pardwn', *Bulletin of the Board of Celtic Studies*, 14 (1956), 254-68.
- <sup>72</sup> Jane Tibbets Schulenburg, 'The heroics of virginity. Brides of Christ and sacrificial mutilation', yn *Women in the Middle Ages and the Renaissance, Literary and Historical Perspectives*, gol. Mary Beth Rose (Syracuse: Syracuse University Press), tt. 29-72.
- <sup>73</sup> David Knowles, *The Monastic Order in England* (Cambridge, 1940), t. 101.
- <sup>74</sup> Schulenburg, 'The heroics of virginity', t.
- <sup>75</sup> *Iolo Manuscripts.*, gol. Williams (Llanymddyfri, 148), t. 84.
- <sup>76</sup> D. Huws, 'The earliest Bangor missal', *Llyfrgell Genedlaethol Cymru Journal*, 27 (1991), 113-28.
- <sup>77</sup> *Vitae Sanctorum*, gol. a chyf. Wade-Evans, t. 137.
- <sup>78</sup> H. Owen, 'Llanddwyn Island', *Transactions of the Anglesey Antiquarian Society and Field Club*, (1920), 1-32 (t. 63).
- <sup>79</sup> *Selected Poems of Dafydd ap Gwilym*, gol. a chyf. Rachel Bromwich (Harmondsworth, 1982), tt. 116-19. Gweler hefyd *Dafydd ap Gwilym His Poems*, cyf. Gwyn Thomas (Caerdydd, 2001), tt. 189-90.
- <sup>80</sup> *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964), t. 14.
- <sup>81</sup> *Ibid.*, t. 118.
- <sup>82</sup> *Vitae Sanctorum*, gol. a chyf. Wade-Evans, t. 27.

<sup>83</sup> Ar gyfer *Vita Sancti Cadoci*, gweler Ibid., tt. 24-141 ac ar gyfer *Vita Sancti Gundleii*, gweler Ibid., tt. 172-93.

<sup>84</sup> Baring-Gould and Fisher, *Lives of the British Saints*, cyfrol. 6, t. 401.

<sup>85</sup> *Rhigyfarch's Life of St David*, gol. a chyf. James, t. 30. Cf y testun Cymraeg: 'Ac ym penn y deg mlyned ar hugein wedy hynny, val yr oed y brenhin a elwit Sant yn kerdet ehun, nacha lleian yn kyfrauot ac ef. Sef a oruc ynteu, ymauael a hi a dwyn treis arnei. A'r lleian a gauas beichogi (enw y lleian oed Nonn); a mab a anet idi, a Daid a rodet yn enw arnaw. A gwr ny bu idi na chynt na gwedy; diweir oed hi o vedwl a gweithret. *The Welsh Life of St David*, gol. D. S. Evans (Caerdydd, 1988), t. 2.

<sup>86</sup> Yves Le Berre, Bernard Tanguy, Yves-Pascal Castel, *Buez Santez Nonn. Myst/Ire Breton. Vie de Saint Nonne* (Minihi Levenez, 1999).

<sup>87</sup> Augustine, *City of God*, gol. a chyf. David Knowles a Henry Bettenson (Harmondsworth, 1972), t. 26.

<sup>88</sup> *Gwaith Dafydd Llwyd*, gol. Richards, t. 47.

<sup>89</sup> *Vitae Sanctorum*, gol. a chyf. Wade-Evans, tt. 252-53.

<sup>90</sup> Ibid., t. 16. Nid yw Wade-Evans yn rhoi cyfieithiad o Fuchedd Gymraeg Beuno. Fi biau'r cyfieithiad.

<sup>91</sup> D. J. Gwenallt Jones, 'Buchedd Collen', yn *Rhyddiaith Gymraeg*, gol. T. H. Parry-Williams, t. 37.

<sup>92</sup> Doble, *Saint Nonna*, tt. 4-5.

<sup>93</sup> Willis Bund, 'Some characteristics of Welsh and Irish saints', tt. 279-80.

<sup>94</sup> Sonnir am ŵyl Rhyddlad mewn dau galendr: Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, MS Peniarth 172, t. 46 a Llundain, Llyfrgell Brydeinig, Add. 14,882, fol. 43<sup>r</sup>. Sonnir am ŵyl Callwen a Gwenfyl ar 1 Tachwedd yn unig yn Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, MS Cwrtmawr 44, t. 5. Sonnir am ŵyl Gwenfaen ar 4 Tachwedd yn unig yn Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, MS Peniarth 186, t. 11, a newidiwyd yr enw i Gwenfrewi gan law ddiweddarach.

<sup>95</sup> Gelwir ar St Gwenog sawl gwaith mewn dau gopi llawysgrif o gyfreithiau Hywel Dda a ysgrifennwyd gan yr un ysgrifydd: Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llansteffan 116 a Llundain, Llyfrgell Brydeinig, Add. MS 22,356. Cyfeiria'r llawysgrif gyntaf hefyd at Santes Gwnen y mae'r unig gysegriad iddi yn Llanwnen, eglwys gyfagos yn yr un plwyf. Ar sail hyn, awgrymodd Christine James mai brodor

o ddyffryn Teifi oedd yr ysgrifydd, 'Ysgrifydd anhysbys: proffil personol', *Ysgrifau Beirniadol* 23 (1997), 44-72. Mae cyfeiriadau at Gwnen (neu Gwynnen) ym marddoniaeth Lewys Glyn Cothi'n awgrymu mai dyn oedd y sant hwn. *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. Johnston, t. 222.

<sup>96</sup> *Breuddwyd Maxen*, gol. Ifor Williams (Bangor, 1908); T. Gwynn Jones, 'Ystoria Addaf a Val a Cauas Elen y Grog: tarddiad, cynnwys ac arddull y testunau Cymraeg a'u lledaeniad', (traethawd M.A. heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 1936).

<sup>97</sup> R. Sharpe, 'Some medieval miracula from Llandegley (Lambeth Palace Library, MS 94 fols. 153v-155r)', *Bulletin of the Board of Celtic Studies*, 37 (1990), 166-76.

<sup>98</sup> Roedd Priordy Benedictaidd ym Mrynbuga a dau dŷ Sistersiaidd ar gyfer merched yn Llanllugan a Llanllŷr. Ceisiaf egluro pam roedd cyn lleied o leiandai yng Nghymru'r Oesoedd Canol yn J. Cartwright, 'The desire to corrupt: convent and community in medieval Wales', yn *Medieval Women in their Communities*, gol. Diane Watt (Caerdydd, 1997), 20-48.

<sup>99</sup> Mae hyn yn gyffredinol wir am y seintiau gwrywaidd yn ogystal. Mae Sant Caradog, a fu farw ym 1124 ac y credir iddo gael ei gladdu yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi, yn achos anarferol. Serch hynny, gwnaed digon o ddarpariaeth yng Nghymru ar gyfer dynion a ddymunai fynd yn fynachod. Rhestra D. Knowles a R. N. Hadcock, *Medieval Religious Houses: England and Wales* (London, 1953), chwe deg tri o sefydliadau mynachaid ar gyfer dynion yng Nghymru, gan gynnwys abatai, priordai, allbriordai, tai'r brodyr a chelloedd.

## **Darllen pellach:**

Canllaw yn unig yw'r llyfryddiaethau canlynol. Nid oes disgwyl i chi ymgynghori â'r holl weithiau hyn. Yn wir, efallai na fydd modd i chi gael gafael ar lawer o'r deunydd hwn. Fodd bynnag, gallai llawer o'r llyfrau a'r erthyglau a restrir yma fod yn ddefnyddiol wrth wneud ymchwil bellach ar gyfer yr aseiniadau. Cyhoeddwyd llawer iawn o ddeunydd ar y seintiau Celtaidd, er mai prin yw'r sylw a gafodd santesau Cymru tan yn ddiweddar. Nid yw'r llyfryddiaethau y cyfeirir atynt yma'n gynhwysfawr o gwbl, a byddwch, yn ddi-os, yn dod o hyd i destunau defnyddiol eraill. Yn ogystal â'r testunau a nodir isod, gweler yr erthyglau a'r cyfrolau y cyfeirir atynt yn y nodiadau sydd gyda 'Gwryfon Marw: Sancteiddrwydd Benywaidd yng Nghymru'r Oesoedd Canol'.

## **Cefndir Hanesyddol / Cristnogaeth 'Geltaidd'**

Bradley, Ian (1999) *Celtic Christianity: Making Myths and Chasing Dreams* (Edinburgh: Edinburgh University Press).

Bowen, E. G. (1977) *Saints, Seaways and Settlements* (Cardiff: University of Wales Press).

Chadwick, Nora K. (1961) *The Age of the Saints in the Early Celtic Church* (Oxford: Oxford University Press).

Davies, Oliver (1996) *Celtic Christianity in Early Medieval Wales* (Cardiff: University of Wales Press).

Idem., (1995) 'Is there a Celtic Christianity?', *Theology Wales* 8, tt. 13-15.

Idem., (with collaboration of Thomas O'Loughlin) (1999) *Celtic Spirituality* (New York: Paulist Press).

Davies, Wendy (1982) *Wales in the Early Middle Ages* (Leicester: Leicester University Press).

Edwards, Nancy and Lane, Alan (1992) *The Early Church in Wales and the West* (Oxbow Monograph 16).

Victory, Siôn (1977) *The Celtic Church in Wales* (London: SPCK).

Williams, Glanmor (1962) *The Welsh Church From Conquest to Reformation* (Cardiff: University of Wales Press).

## Santesau:

Cartwright, Jane (1999) *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod: Agweddau ar Wryfyddod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Idem., (i'w gyhoeddi) 'Dead Virgins: Feminine Sanctity in Medieval Wales', *Medium Ævum*.

Idem., (2002) 'Santesau Ceredigion', *Ceredigion*.

Idem. (2008) *Feminine Sanctity and Spirituality in Medieval Wales* (Cardiff: University of Wales Press).

Idem (2013) gol. *Mary Magdalene and her Sister Martha* (Washington: Catholic University of America Press).

Idem. (2016) gol. *The Cult of St Ursula and the 11,000 Virgins* (Cardiff: University of Wales Press).

Jones, Lisa Eryl (2000) 'Golygiad Newydd o *Fuchedd Gwenfrewi*', traethawd M.Phil heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru, Caerdydd.

Lewis, Katherine J. (2000) *The Cult of St Katherine of Alexandria in Late Medieval England* (Woodbridge: Boydell).

McNamara, Jo Ann et al. (1992) *Sainted Women of the Dark Ages* (Durham: Duke University Press).

Pepin, Ronald and Feiss, Hugh (2000) (cyf.) *Two Mediaeval Lives of Saint Winefride* (Toronto: Peregrina Publishing).

Pryce, Huw (1994) 'A New Edition of the *Historia Divae Monacellae*', *Mongomeryshire Collections* 82, tt. 147-66.

Schulenberg, Jane T. (1984) 'The Heroics of Virginité. Brides of Christ and Sacrificial Mutilation', yn Mary Beth Rose (gol.) *Women in the Middle Ages and the Renaissance, Literary and Historical Perspectives* (Syracuse: Syracuse University Press), tt. 29-72.

Winstead, Karen A. (1997) *Virgin Martyrs* (Cornell: Cornell University Press).

Wogan-Browne, Jocelyn (1991) 'Saints' Lives and the Female Reader', *Forum For Modern Language Studies* 4, tt. 314-32.

Idem., (1996) *Virgin Lives and Holy Deaths. Two Exemplary Biographies for Anglo-Norman Women* (Everyman, London).

Idem., (2001) *Saints' Lives and Women's Literary Culture* (Oxford: Oxford University Press)

### **Seintiau'n gyffredinol**

- Baring-Gould, S. a Fisher, J. (1907-13) *The Lives of the British Saints*, I-IV (Llundain: Cymmrodorion).
- Bartrum, T. C. (1966) gol. *Early Welsh Genealogical Tracts* (Cardiff: University of Wales Press).
- Brown, Peter (1981) *The Cult of the Saints: its rise and function in Latin Christianity* (London: SCM Press).
- Doble, Gilbert H. (1984) *The Lives of the Welsh Saints* (Cardiff: University of Wales Press).
- Evans, D. Simon (1986) *Medieval Religious Literature* (Cardiff: University of Wales Press).
- Idem, (1988) gol. *The Welsh Life of St David* (Cardiff: University of Wales Press).
- Farmer, David H. (1992) *The Oxford Dictionary of Saints* (Oxford: Oxford University Press).
- Ford, Patrick K. (1983) *Celtic Folklore and Christianity: studies in memory of William W. Heist* (Santa Barbara: McNally & Loftin).
- Gougard, Louis (1932) *Christianity in Celtic Lands* (London: Sheed and Ward).
- Henken, Elissa R. (1987) *Traditions of the Welsh Saints* (Cambridge: D.S. Brewer).
- Idem, (1991) *The Welsh Saints. A Study of Patterened Lives* (Cambridge: D.S. Brewer).
- Jankulak, Karen (2000) *The Medieval Cult of St Petroc* (Woodbridge: Boydell).
- Jones, Francis (1992) *The Holy Wells of Wales* (Cardiff: University of Wales Press).
- MacQuarrie, Alan (1997) *The Saints of Scotland: Essays in Scottish Church History AD 450-1093* (Edinburgh: John Donald Publishers).
- Thomas, Patrick (1993) *A Candle in the Darkness: Celtic Spirituality from Wales* (Llandysul: Gomer).
- Wade-Evans, A. W. (1944) gol. a chyf. *Vitae Sanctorum Britanniae et Genealogiae* (Cardiff: University of Wales Press).

